



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 11 Ebrill 2000**

**Tuesday 11 April 2000**

**Cynnwys  
Contents**

- |    |   |
|----|---|
| 3  | Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd<br><i>Questions to the First Secretary</i>   |
| 17 | Datganiad ar y Map Ardaloedd a Gynorthwyir<br><i>Statement on the Assisted Areas Map</i>                            |
| 24 | Datganiad ar Gyllid Amaethyddol<br><i>Statement on Agricultural Funding</i>   |
| 31 | Pwyntiau o Drefn<br><i>Points of Order</i>  |
| 36 | Datganiad Busnes<br><i>Business Statement</i>   |
| 41 | Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol<br><i>Minority Party Debate: The Conservative Party</i>                    |
| 70 | Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol<br><i>Minority Party Debate: The Liberal Democrat Party</i> |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.*  
*The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

### **Senedd Ewropeaidd (Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth) European Parliament (Influencing Legislation)**

**Q1 William Graham:** What strategy would the First Secretary follow to enable the Assembly to influence legislation in the European Parliament as early as possible in the democratic process? (OAQ4708)

**C1 William Graham:** Pa strategaeth a ddilynai'r Prif Ysgrifennydd i alluogi'r Cynulliad i ddyylanwadu ar ddeddfwriaeth yn y Senedd Ewropeaidd cyn gynted ag y bo modd yn y broses ddemocrataidd? (OAQ4708)

**The First Secretary (Rhodri Morgan):** The European Affairs Committee is currently looking at this issue and the report will be considered at its next meeting on 8 June. The concordat on co-ordination of European policy issues states that the UK Government will provide the Assembly with full and comprehensive information as early as possible on all European Union issues that are of interest to us. The creation of the Assembly's own office in Brussels and our membership of the Wales European Centre will provide further means of support to identify the key issues early. The Subject Committees are the most appropriate place for discussions about detailed policy and a series of policy reviews have recently been prepared which assess the impact of European policy on different aspects of the Assembly's work. These reports will be considered by each Subject Committee in due course.

**William Graham:** How will you ensure that Welsh opinions and policies that benefit all of Wales will be effectively promoted once established?

**The First Secretary:** That depends on the quality of feedback we receive. We are a collective body but we rely on the three million people in Wales to lobby the 60 elected Members about issues that concern them. That is then fed through to the collective voice of the Assembly. If there is a pressing issue, which involves the potential for using the European Parliament and its

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn edrych ar y mater hwn ar hyn o bryd ac ystyrir yr adroddiad yn ei gyfarfod nesaf ar 8 Mehefin. Mae'r concordat ar gydlynus materion polisi Ewropeaidd yn datgan y bydd Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth lawn a chynhwysfawr i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ynghylch holl faterion yr Undeb Ewropeaidd sydd o ddiddordeb i ni. Bydd creu swyddfa ei hun i'r Cynulliad ym Mrwsel a'n haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn darparu cymorth ychwanegol i ddynodi'r materion allweddol yn gynnar. Y Pwyllgorau Pwnc yw'r mannau mwyaf priodol ar gyfer trafodaethau am bolisi manwl a pharatoedd cyfres o adolygiadau polisi yn ddiweddar sydd yn asesu effaith polisi Ewropeaidd ar wahanol agweddau ar waith y Cynulliad. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried gan bob Pwyllgor Pwnc gyda hyn.

**William Graham:** Sut y byddwch yn sicrhau y bydd safbwytiau Cymreig a pholisiau sydd o fudd i bob rhan o Gymru yn cael eu hybu'n effeithiol ar ôl eu sefydlu?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dibynna hynny ar ansawdd yr adborth a dderbyniwn. Corff cynulliadol ydym ond dibynnwn ar y tair miliwn o bobl yng Nghymru i lobio'r 60 Aelod etholedig am y materion sydd o bwys iddynt. Porthir hynny wedyn i lais cynulliadol y Cynulliad. Os oes mater brys, sydd yn ymwneud â'r potensial i ddefnyddio'r Senedd Ewropeaidd a'i

legislative powers to ameliorate matters, we can proceed by that means. The issue is whether we have the backing of the three million people in Wales on a particular matter where perhaps there is a Welsh angle that is different from the UK angle. I am sure that, if we can persuade people in the rest of the UK and in Europe that we have a specific Welsh angle on an issue and strong Welsh backing for this view, we could make our voice heard.

**Dafydd Wigley:** There is a danger that we are simply reacting to something that is beyond our control or influence, unless we have scrutiny of draft legislation and directives at an earlier stage, before they are finalised. Can we have an assurance that the mechanisms we establish will enable the Assembly to receive the earliest possible feedback in order to feed through our misgivings and aspirations in any draft legislation and directives to the appropriate people so that we can make a difference?

**The First Secretary:** Dafydd assumes that the grass is greener on the Scottish side of the hill. The Scottish Parliament's procedures are not necessarily better than our procedures simply because they are different. We placed an obligation on the Subject Committee and Scotland decided to set up a dedicated European Affairs Committee. Both our Subject Committees and Scotland's European Affairs Committee can be involved at an early stage as long as they are aware that there is an angle on this issue. There is no reason to suppose that a dedicated European Affairs Committee—if that was the line of thought that Dafydd was promoting—will be any better at catching that sort of issue early on, where there is a specific Welsh need to be expressed distinctly from the rest of the UK or the rest of Europe. Our Subject Committees can do that if they are astute. In addition, if officials bring issues to their notice they can then be considered by the Subject Committee. Potentially, that is as good a method as having a separate European Affairs Committee.

**Nick Bourne:** The animal transport directive that is currently being debated is a specific example of where this matters. In relation to

phwerau deddfwriaethol i wella materion, gallwn fynd ymlaen drwy'r cyfrwng hwnnw. Y cwestiwn yw a ydym yn cael cefnogaeth y tair miliwn o bobl yng Nghymru ar fater penodol lle y bo safbwyt Cymreig sydd o bosibl yn wahanol i safbwyt y DU. Yr wyf yn siŵr, os gallwn berswadio pobl yng ngweddill y DU ac yn Ewrop fod gennym safbwyt Cymreig penodol ar bwnc a chefnogaeth gref yng Nghymru i'r farn honno, y gallem gael gwrandawiad i'n llais.

**Dafydd Wigley:** Mae perygl mai'r cwbl a wnawn yw adweithio i rywbeth sydd y tu hwnt i'n rheolaeth neu'n dylanwad, oni allwn archwilio deddfwriaeth a chyfarwyddebau drafft yn gynharach, cyn iddynt gael eu cwblhau. A gawn sicrwydd y bydd y mecanweithiau a sefydlwn yn galluogi'r Cynulliad i dderbyn yr adborth cynharaf posibl er mwyn trosglwyddo ein hamheuon a'n dyheadau yngylch unrhyw ddeddfwriaeth a chyfarwyddebau drafft i'r bobl briodol fel y gallwn wneud gwahaniaeth?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Dafydd yn rhagdybio fod y porfeydd yn frasach ar ochr yr Alban i'r bryn. Nid yw gweithdrefnau Senedd yr Alban o reidrwydd yn well na'n gweithdrefnau ni dim ond am eu bod yn wahanol. Rhoesom y Pwyllgor Pwnc o dan rwymedigaeth a phenderfynodd yr Alban sefydlu Pwyllgor Materion Ewropeaidd un pwrrpas. Gall ein Pwyllgorau Pwnc a Phwyllgor Materion Ewropeaidd yr Alban gymryd ran yn gynnar gyhyd â'u bod yn ymwybodol bod safbwyt ar y mater hwn. Nid oes rheswm i dybio y bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd un pwrrpas—os mai hynny oedd y safbwyt yr oedd Dafydd yn hyrwyddo—yn well o gwbl wrth fachu ar fater o'r fath yn gynnar, lle y mae angen penodol Gymreig i'w ddatgan sydd yn wahanol i weddill y DU neu weddill Ewrop. Gall ein Pwyllgorau Pwnc wneud hynny os ydynt yn sylwgar. Yn ogystal, os daw swyddogion â materion i'w sylw gellir eu hystyried wedyn drwy'r Pwyllgor Pwnc. Gallai hynny fod yn ddull sydd gystal â chael Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar wahân.

**Nick Bourne:** Mae'r gyfarwyddeb ar gludo anifeiliaid a drafodir ar hyn o bryd yn enghraifft benodol o bwysigrwydd hyn.

Westminster, Mr Morley, Labour's Minister for Fisheries and the Countryside, has indicated a hard-line approach against the live transportation of animals. What representations is he and Christine Gwyther, the Secretary for Agriculture and Rural Development, making on behalf of Wales to oppose this, because it is deeply unpopular with Welsh farmers?

**The First Secretary:** This has long been a matter of great concern to Welsh farmers, particularly those involved in the light lamb export trade from the eastern half of mid Wales. I cannot answer for the Agriculture and Rural Development Committee because I am not aware of whether it has taken a specific position on this matter. However, it is a matter for that Committee to state that there is a subject on which the Welsh view may be different from the UK view, that it wants to include the Welsh angle and that it wishes Europe to know about it. If the Committee decides to do that, I am sure that we will follow it through.

**Mick Bates:** Does the First Secretary agree that the policies the Tories are following would lead to the renegotiation of European treaties and would leave Wales and the UK isolated from our European partners? Furthermore, does he agree that the best way to enhance our influence in Europe is to advance preparations for entry into the European single currency?

**The First Secretary:** I am not sure to which wing of the Conservative Party William Graham belongs. I assume that his reason for asking this question about influencing legislation while it is in the European Parliament is that he believes that that can be constructive. I do not think that he believes that ameliorating that legislation is a way of trying to distance Great Britain from mainland Europe and widening the English Channel from 22 miles to 44 miles.

One could argue that we should be debating whether there is a distinct Welsh interest in the subject of the euro. However, we should not try to arrogate to ourselves any kind of primacy of role in this, relative to the UK

Mewn perthynas â San Steffan, mae Mr Morley, Gweinidog Llafur dros Bysgodfeydd a Chefñ Gwlad, wedi dangos ymagwedd ddigymrodedd yn erbyn cludo anifeiliaid byw. Pa sylwadau y mae ef a Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn eu cyflwyno ar ran Cymru i wrthwynebu hyn, oherwydd mae'n amhoblogaidd tu hwnt ymmsg ffermwyr Cymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hyn yn fater o bryder mawr ers talwm i ffermwyr yng Nghymru, yn enwedig y rhai sydd yn gysylltiedig â'r fasnach allforio âwyn ysgafn o hanner dwyreiniol canolbarth Cymru. Ni allaf ateb dros y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig oherwydd ni wn a yw wedi mabwysiadu safbwyt penodol ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'n fater i'r Pwyllgor hnwnw ddatgan bod pwnc y gallai barn Cymru arno fod yn wahanol i farn y DU, ei fod yn dymuno cynnwys y safbwyt Cymreig a'i fod yn dymuno i Ewrop wybod amdano. Os penderfyna'r Pwyllgor wneud hynny, yr wyf yn sicr y byddwn yn dilyn y mater drwodd.

**Mick Bates:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno y byddai'r polisiau a ddilynir gan y Torïaid yn arwain at ailnegodi cytundebau Ewropeaidd ac yn gadael Cymru a'r DU wedi eu hynysu oddi wrth ein partneriaid Ewropeaidd? Ymhellach, a yw'n cytuno mai'r dull gorau o hybu ein dylanwad yn Ewrop yw hyrwyddo'r paratoadau i ymuno â'r arian sengl Ewropeaidd?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn sicr i ba adain o'r Blaid Geidwadol y mae William Graham yn perthyn. Cymeraf mai ei reswm dros ofyn y cwestiwn hwn ynghylch dylanwadu ar ddeddfwriaeth tra y bo yn y Senedd Ewropeaidd yw ei fod yn credu y gall hynny fod yn adeiladol. Ni thybiaf ei fod yn credu bod gwella'r ddeddfwriaeth honno'n fod i geisio pellhau Prydain Fawr oddi wrth dir mawr Ewrop a lledu'r Môr Udd o 22 milltir i 44 milltir.

Gallai rhywun ddadlau y dylem drafod a oes buddiant Cymreig gwahanol ym mhawn yr ewro. Fodd bynnag, ni ddylem geisio honni'r hawl i'r flaenllaw o unrhyw fath i ni'n hunain yn y mater hwn, mewn perthynas â

Government. We all know what the Government's stated position is, and it is an issue that will be determined by a referendum either before or after the next general election, following the Government deciding at some stage that the so-called economic tests have been met. We have not reached that stage yet. Therefore, it is academic at this stage to start talking about the Assembly making a determination on whether we are in favour of Great Britain joining the euro. I assume, Mick, that you would not be in favour of Wales joining the euro separately from the rest of the UK.

**John Griffiths:** Membership of the euro would be advantageous to Wales for all sorts of reasons. That is evident from the current pressure on the steel industry and other manufacturing industries in Wales from relatively high interest rates. How does Rhodri see the Assembly taking part in the debate in Wales in the run-up to a referendum?

**The First Secretary:** There is a problem about the powers to take part in euro campaigning activities. I have recently seen documentation which indicates that the Government of Wales Act would place some restrictions on us with regard to participating in such campaigning activities. Everybody has a right to a view and we would have a right to debate the issue. I agree with John Griffiths to the extent that any part of the UK that has a high degree of dependency on high volume, low value, low margin manufacturing activities, whether it be the West Midlands or Wales, would have been better off in terms of employment growth had we entered the euro at an appropriate rate, well under 3 deutschmark to the pound, compared to the present rate of 3.25 deutschmark to the pound. A weak euro has made Germany very competitive with us and has put pressure on the car and steel industries, and on television and component manufacturing. Our high dependency on those industries, along with not being in the euro at an appropriate rate, has also led to the enormous and unnecessary pressure that they are under.

Llywodraeth y DU. Gwyddom oll beth yw'r safbwyt a ddatganwyd gan y Llywodraeth, ac mae'n fater a benderfynir drwy refferendwm naill ai cyn neu ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf, wedi i'r Llywodraeth benderfynu ar ryw adeg fod y profion economaidd honedig wedi eu cyflawni. Ni chyraeddasm y fan honno eto. Felly, mater academaidd ar hyn o bryd yw dechrau sôn am y Cynulliad yn penderfynu a ydym o blaids Prydain Fawr yn ymuno â'r ewro. Cymeraf, Mick, na fyddch yn dymuno i Gymru ymuno â'r ewro ar wahân i weddill y DU.

**John Griffiths:** Byddai aelodaeth o'r ewro o fantais i Gymru am bob math o resymau. Mae hynny'n amlwg o'r pwysau presennol ar y diwydiant dur a diwydiannau gweithgynhyrchu eraill yng Nghymru oddi wrth gyfraddau llog cymharol uchel. Pa ran a wêl Rhodri i'r Cynulliad yn y ddadl yng Nghymru yn y cyfnod cyn refferendwm?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae problem yngylch y pwerau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu ar yr ewro. Gwelais ddogfennaeth yn ddiweddar sydd yn dangos y byddai Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod rhai cyfyngiadau arnom mewn perthynas â chymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu o'r fath. Mae gan bawb hawl i'w farn a byddai gennym hawl i draffod y mater. Cytunaf â John Griffiths i'r graddau y byddai unrhyw ran o'r DU sydd yn ddibynnol iawn ar weithgareddau gweithgynhyrchu swm uchel, gwerth isel, elw isel—gallai fod yn orllewin canolbarth Lloegr neu'n Gymru—wedi bod yn well ei fydd o ran twf mewn cyflogaeth pe baem wedi ymuno â'r ewro ar gyfradd briodol, ymhell o dan 3 deutschmark i'r bunt, o'i chymharu â'r gyfradd gyfredol o 3.25 deutschmark i'r bunt. Mae ewro gwan wedi gwneud yr Almaen yn gystadleuol iawn â ni ac wedi rhoi pwysau ar y diwydiannau ceir a dur, ac ar weithgynhyrchu setiau teledu a chydranau. Mae ein dibyniaeth uchel ar y diwydiannau hynny, ynghyd â'r ffaith nad ydym yn yr ewro ar gyfradd briodol, wedi arwain hefyd at y pwysau aruthrol a diangen sydd arnynt.

2:10 p.m.

## **Arian Newydd ar gyfer Recriwtio Heddlu yng Nghymru New Money for Police Recruitment in Wales**

**Q2 Alison Halford:** What discussions has the First Secretary had with the Home Office on the implementation of new money for police recruitment in Wales? (OAQ4709)

**The First Secretary:** I have had no such discussions with the Home Secretary. I understand that forces in England and Wales have been allocated funding from the crime fighting fund to recruit 5,000 police officers over and above the number of recruits originally planned for the next three years. Following the Home Secretary's announcement on 27 March, the recruitment programme will be brought forward to deliver all 5,000 recruits within two years. Welsh forces received an additional 223 officers under the crime fighting fund. They will also benefit from the £91 million fund to modernise the police service in England and Wales, which was announced in the budget a few weeks ago.

**Alison Halford:** Do you believe that, as the Assembly has a role in funding police authorities in Wales, we should have a say in how that money is spent, particularly in relation to the sum spent on civil and discrimination actions against Welsh forces?

**The First Secretary:** There are matters that are directly related to the police authorities and the Home Office. There are also cross-cutting issues that involve the Assembly, and local authorities have duties that have a strong financial relationship with the Assembly through the rate support grant. There is a great deal that the Assembly wishes to do in terms of helping to fight and reduce crime and disorder. Crime reduction is high on the Assembly's agenda because you cannot create safer, healthier, happier, wealthier and smarter communities where crime is a major problem. We made that clear during a Plenary debate on crime and disorder on 12 October 1999. The Assembly therefore has a strong interest in this issue,

**C2 Alison Halford:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a'r Swyddfa Gartref ynghylch defnyddio arian newydd ar gyfer recriwtio heddluoedd yng Nghymru? (OAQ4709)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni chefais drafodaethau o'r fath â'r Ysgrifennydd Cartref. Deallaf fod cyllid wedi ei ddyrannu i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr o'r gronfa ymladd troseddu er mwyn recriwtio 5,000 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr o'r gronfa ymladd troseddu er mwyn recriwtio 5,000 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr o'r gronfa ymladd troseddu er mwyn recriwtiaid a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref ar 27 Mawrth, deuir â'r rhaglen recriwtio ymlaen er mwyn cyflenwi'r 5,000 o recriwtiaid i gyd o fewn dwy flynedd. Derbyniodd heddluoedd Cymru 223 o swyddogion yn ychwanegol o dan y gronfa ymladd troseddu. Byddant hefyd yn elwa o'r gronfa o £91 miliwn i foderneiddio'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr, a gyhoeddwyd yn y gyllideb ychydig wythnosau'n ôl.

**Alison Halford:** A gredwch, gan fod rôl i'r Cynulliad wrth ariannu awdurdodau heddlu yng Nghymru, y dylem gael llais o ran y modd y gwerir yr arian hwnnw, yn enwedig mewn perthynas â'r swm a werir ar achosion sifil a gwahaniaethu yn erbyn heddluoedd Cymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ceir materion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r awdurdodau heddlu a'r Swyddfa Gartref. Ceir materion trawsbynciol hefyd sydd yn gysylltiedig â'r Cynulliad, ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau sydd â chysylltiad ariannol cryf â'r Cynulliad drwy y grant cynnal trethi. Mae llawer iawn y dymuna'r Cynulliad ei wneud o ran helpu i ymladd a lleihau trosedd ac anhreln. Mae lleihau troseddu'n uchel ar agenda'r Cynulliad oherwydd ni allwch greu cymunedau diogelach, iachach, hapusach a thaclusach lle y mae troseddu'n broblem fawr. Datganasm hynny'n glir yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar drosedd ac anhreln ar 12 Hydref 1999. Felly mae gan y Cynulliad fuddiant cryf yn y mater hwn, ond mae'r

but the management, inspection and actions against police authorities is a function that remains with the Home Office.

**Glyn Davies:** We are all aware of how the Home Secretary disgracefully misled the British public with his claims that an extra 5,000 police officers had been recruited. In reality, since May 1997, the total number has probably decreased. What is the position in Wales, not in terms of intention but what has actually happened since May 1997?

**The First Secretary:** I do not have the figures in front of me today, but my understanding is that there has not been a reduction in the numbers of police officers in Wales. If I am wrong about that I will write to Glyn.

**Alun Pugh:** The community of Mochdre in my constituency is experiencing problems of anti-social behaviour by a small number of people. Would you encourage North Wales Police and the local authorities to use their new powers under the Crime and Disorder Act 1998 to deal with this persistent problem?

**The First Secretary:** Local authorities and the police can work together to take firm action to deal with a persistent problem of that kind. It is not a power that has been used frequently, if at all, but it is available to be used. Therefore, the police and local authorities should not hesitate in using that power to become involved in order to try to deal with such a problem. There are probably such outbreaks in most constituencies once a year. They need to be dealt with because the nuisance, pain and aggravation caused to residents makes them want to leave the area, subsequently giving that area a bad reputation, which is then difficult to rebuild. Nipping the problem in the bud would be healthier for everybody involved.

**Kirsty Williams:** Do you regret the present Government's decision not to implement a Home Office review into sparsity costs of policing, which would have meant an extra £3 million for Dyfed-Powys Police, which

rheolaeth, yr arolygiaeth ac achosion yn erbyn awdurdodau heddlu yn swyddogaeth sydd yn eiddo i'r Swyddfa Gartref o hyd.

**Glyn Davies:** Yr ydym oll yn ymwybodol o'r modd gwarthus y camarweiniwyd y cyhoedd ym Mhrydain gan yr Ysgrifennydd Cartref gyda'i honiadau bod 5,000 o heddweision ychwanegol wedi eu recriwtio. Mewn gwirionedd, ers Mai 1997, mae'r cyfanswm wedi lleihau yn ôl pob tebyg. Beth yw'r sefyllfa yng Nghymru, nid o ran y bwriad ond o ran yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd ers Mai 1997?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw'r ffigurau gennyl o'm blaen heddiw, ond yr hyn a ddeallaf yw na fu gostyngiad yn niferoedd yr heddweision yng Nghymru. Os wyf yn anghywir am hynny, fe ysgrifennaf at Glyn.

**Alun Pugh:** Mae cymuned Mochdre yn fy etholaeth yn profi problemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol gan nifer fach o bobl. A fyddch yn annog Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdodau lleol i arfer eu pwerau newydd o dan Ddeddf Trosedd ac Anhreftn 1998 i ddelio â'r broblem barhaus hon?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gall awdurdodau lleol a'r heddlu gydweithio i gymryd camau pendant i ddelio â phroblem barhaus o'r math hwnnw. Nid yw'n bŵer a ddefnyddiwyd yn aml, os o gwbl, ond mae ar gael i'w ddefnyddio. Felly, ni ddylai'r heddlu a'r awdurdodau lleol betruso rhag defnyddio'r pŵer hwnnw i gymryd rhan er mwyn ceisio delio â phroblem o'r fath. Mae digwyddiadau o'r fath yn y rhan fwyaf o etholaethau unwaith y flwyddyn yn ôl pob tebyg. Mae angen ymdrin â hwy oherwydd mae'r niwsans, y boen a'r gwaethygiad a achosir i drigolion yn peri iddynt ddymuno gadael yr ardal, gan roi enw drwg i'r ardal honno o ganlyniad, sydd yn anodd ei gywiro wedyn. Byddai lladd y broblem yn yr egin yn iachach i bawb sydd yn gysylltiedig.

**Kirsty Williams:** Ai testun gofid i chi yw penderfyniad y Llywodraeth bresennol i beidio â gweithredu adolygiad gan y Swyddfa Gartref ar gostau plismona ardaloedd prin eu poblogaeth, a fuasai wedi golygu £3 miliwn

translates into an extra 100 police officers? What will you do to put pressure on your colleagues in London to implement this report?

**The First Secretary:** I do not know whether I can regret that decision, because I am not sure whether other police forces in Wales would have lost officers to provide the additional 100, which, as Kirsty said, would have been recruited by or would have been available to Dyfed-Powys Police if the sparsity formula had been implemented. I do not know where the money would come from. Would the same money be reallocated to sparsely populated areas, therefore taking it from densely populated areas, or would it be an extra fund, on which sparsely populated areas could call, with no deleterious impact on urban parts of Wales? Until Kirsty gives me more details, I cannot answer that question directly.

yn ychwanegol i Heddlu Dyfed-Powys, sydd yn gyfystyr â 100 o heddweision ychwanegol? Beth a wnewch i roi pwysau ar eich cydweithwyr yn Llundain er mwyn gweithredu'r adroddiad hwn?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni wn a allaf ofidio ynghylch y penderfyniad hwnnw, oherwydd nid wyf yn sicer a fyddai heddluoedd eraill yng Nghymru wedi colli heddweision i roi'r 100 ychwanegol a fuasai wedi eu recriwtio, fel y dywedodd Kirsty, gan Heddlu Dyfed-Powys neu a fuasai ar gael iddo pe bai'r fformwla teneurwydd wedi ei rhoi ar waith. Ni wn o ble y deuai'r arian. A gâi'r un arian ei ailddyrannu i ardaloedd prin eu poblogaeth, gan ei gymryd felly oddi wrth ardaloedd poblog, ynteu a fyddai'n gronfa ychwanegol, y gallai ardaloedd prin eu poblogaeth ei defnyddio, heb effaith niweidiol ar rannau trefol o Gymru? Hyd nes y bydd Kirsty yn rhoi mwy o fanylion i mi, ni allaf ateb y cwestiwn hwnnw'n uniongyrchol.

### **Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad Assembly Sponsored Public Bodies**

**Q3 Peter Black:** What proposals does the First Secretary have to reduce the number of Assembly sponsored public bodies over the next three years? (OAQ4704)

**The First Secretary:** In the consultation paper, 'A Better Wales', we stated that we would review all of our major sponsored bodies—quangos, in old language—by 2003, so that we can be sure that they are working in the public's best interests, making good use of the funds they receive and fitting in with the Assembly's objectives. The Finance Secretary will shortly announce details of the review programme. We will consider the future of each quango in the light of that review.

**Peter Black:** As part of that review, will you consider the accountability of ASPBs such as, for example, the Arts Council of Wales, to see if it can be improved to ensure that those bodies fully meet the Assembly's policies and objectives and that they give timely responses to the concerns of Assembly Members and Committees?

**C3 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leihau nifer y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn ystod y tair blynedd nesaf? (OAQ4704)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn y papur ymgynghorol, 'Gwell Cymru', datganasom y byddem yn adolygu pob un o'r prif gyrrff a noddir gennym—cwangos, yn yr hen ieithwedd—erbyn 2003, fel y gallwn fod yn sicr eu bod yn gweithio er budd gorau'r cyhoedd, gan wneud defnydd da o'r arian a dderbyniant a chydweddu ag amcanion y Cynulliad. Bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn cyhoeddi manylion y rhaglen adolygu cyn hir. Byddwn yn ystyried dyfodol pob cwango yng ngoleuni'r adolygiad hwnnw.

**Peter Black:** Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, a fyddwch yn ystyried atebolrwydd cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel, er enghraifft, Cyngor Celfyddydau Cymru, i weld a ellir ei wella er mwyn sierhau bod y cyrff hynny'n llwyr gyflawni polisiau ac amcanion y Cynulliad a'u bod yn ymateb yn brydlon i bryderon Aelodau a Phwyllgorau'r Cynulliad?

**The First Secretary:** Peter has stirred up several hornets' nests in that question. I am sure that he knows that Tom Middlehurst has advised the Post-16 Education and Training Committee that the Arts Council of Wales will shortly be the subject of a special management review. A further announcement will be made on that matter.

It is going a step further to say that, in effect, no quango can make a decision without it being subject to countermanding by a Committee or the whole Assembly. That would remove the ability to have quangos at all. We must all be aware that, sometimes, quangos make difficult decisions to terminate funding for a voluntary, arts or sports body. If we had to make those decisions, they would become subjects of tugs of war between different interests and parts of Wales. That would be difficult for us to handle. Maybe we could do so. I wonder whether we could, or whether it is easier to make the Arts Council accountable to the Assembly in a special way, then when it makes a decision that we do not like, we can countermand it by voting in Plenary or by transferring the responsibility of that decision to the Plenary. In those circumstances, we would not want quangos; we would do everything openly and would have to take responsibility for every decision. Peter must remember that when you gain as a result of a quango's decision, you smile quietly about it and feel warm inside, but when you lose from one, you scream blue murder. That is the nature of politics. We would be in the firing line rather than the Arts Council of Wales or any other quango that has difficult winner and loser decisions to make every year.

**Elin Jones:** I ddilyn y pwynt hwnnw, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn credu ei bod yn briodol inni ystyried diddymu rhai o'r cwangos a gwneud eu gwaith yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad? Cymeraf engrhrafft Cyngor Celfyddyddau Cymru. Yr wythnos diwethaf, galwodd Ron Davies am weinidog diwylliant. Beth yw barn y Prif Ysgrifennydd ar greu gweinidog diwylliant ac adran ddiwylliant

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Peter wedi cicio sawl nyth cacwn yn y cwestiwn hwnnw. Yr wyf yn sicr y gŵyr fod Tom Middlehurst wedi hysbysu'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Öl-16 y bydd Cyngor Celfyddyddau Cymru'n destun adolygiad rheolaeth arbennig cyn hir. Gwneir cyhoeddiad pellach ar y mater hwnnw.

Cam pellach na hynny yw dweud, i bob pwrrpas, na chaiff yr un cwango wneud penderfyniad heb gael ei orchymyn i'r gwrthwyneb gan Bwyllgor neu'r Cynulliad cyfan. Byddai hynny'n dileu'r gallu i gael cwangos o gwbl. Rhaid inni oll fod yn ymwybodol bod cwangos, weithiau, yn gwneud penderfyniad anodd i derfynu cyllid i gorff gwirfoddol, celfyddyadol neu chwaraeon. Pe bai'n rhaid i ni wneud y penderfyniadau hynny, byddent yn destun ymryson rhwng gwahanol fuddiannau a rhannau o Gymru. Byddai'n anodd inni ddygymod â hynny. Efallai y gallem wneud hynny. Tybed a allem, ynteu a yw'n haws gwneud Cyngor y Celfyddyddau'n atebol i'r Cynulliad mewn modd arbennig, wedyn pan wna benderfyniad nad ydym yn ei hoffi, gallwn orchymyn i'r gwrthwyneb drwy bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn neu drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y penderfyniad hwnnw i'r Cyfarfod Llawn. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddem am gael cwangos; gwnaem bopeth yn agored a byddem yn gorfol derbyn cyfrifoldeb am bob penderfyniad. Rhaid i Peter gofio y byddwch, wrth ennill o ganlyniad i benderfyniad gan gwango, yn gweni'n ddistaw yn ei gylch ac yn teimlo'n braff ynoch chi'ch hun, ond y byddwch wrth golli o ganlyniad i benderfyniad yn gweiddi mwrdwr. Dyna natur gwleidyddiaeth. Atom ni y byddent yn tanio yn hytrach nag at Gyngor Celfyddyddau Cymru neu ryw gwango arall sydd â phenderfyniadau anodd i'w gwneud bob blwyddyn o ran collwyr ac enillwyr.

**Elin Jones:** To follow on from that point, does the First Secretary believe that it is appropriate for us to consider abolishing some of these quangos and making their work directly accountable to the Assembly? I will use the example of the Arts Council of Wales. Last week, Ron Davies called for a minister for culture. What is the First Secretary's opinion on creating a culture

gref yn y Cynulliad, ddiddymu'r Cyngor Celfyddydau a thrwy hynny leihau nifer y cwangos a chynyddu atebolrwydd?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r math o atebolrwydd sydd gennym yn golygu ein bod yn noddi cwangos bob blwyddyn ac yn anfon llythyr strategol atyt sydd yn rhoi canllawiau ar beth y dylent ei wneud â'r arian. Mae'n debyg i'r math o atebolrwydd a fodolai pan oedd ysgrifennydd gwladol a dau is-ysgrifennydd yn rhedeg Cymru, ar wahân i'r ffaith fod llawer mwy o gyfleoedd gennym i ddadlau ynglŷn â'r hyn y mae'r cwangos yn ei wneud.

2:20 p.m.

Defnyddiodd Elin y gair 'uniongyrchol'. Os yw uniongyrchol yn golygu cymryd y penderfyniadau i gael gwared ar gwangos, er enghrafft Cyngor Celfyddydau Cymru, a gwneud yr un gwaith drwy weinyddiaeth ddiwylliant, nid wyf yn siŵr ynglŷn â hynny. Pe byddem wedi penderfynu sefydlu adran ddiwylliant o fewn y gyfundrefn bresennol, byddem wedi cyhoeddi hynny gerbron y corff anrhydeddus hwn.

**David Davies:** In view of your commitment to making quangos work for the best interests of all in Wales, will you look at the Welsh Design and Advisory Service's activities? Are you aware of allegations that, when businesses come to the WDSA for advice about manufacturing prototypes, they are encouraged to use the Design Engineering Research Centre? That organisation is based in the same premises at the University of Wales Institute, Cardiff and is also in receipt of public funds. Do you agree that the fact that both these organisations are run by the same person, Professor Brown, gives rise to a possible conflict of interest? If you cannot give me a direct answer to this, will you write to me about the activities of these organisations, which I believe are detrimental to small businesses, such as one based in Usk?

**The First Secretary:** I am familiar with that issue. I have also corresponded with the small firm in Usk, for which I have the highest

minister and a strong culture division in the Assembly, abolishing the Arts Council and, in so doing, reducing the number of quangos and increasing accountability?

**The First Secretary:** The kind of accountability that we have means that we sponsor quangos every year and send them a strategic letter which gives guidance on what they should do with the money. That is similar to the type of accountability that existed when a secretary of state and two under-secretaries were running Wales, apart from the fact that we have many more opportunities to argue about what the quangos do

Elin used the word 'direct'. If direct means taking the decisions to get rid of quangos, for example the Arts Council of Wales, and do the same work through a ministry of culture, I am not sure about that. If we had decided to establish a culture department within the existing system, we would have announced that before this honourable body.

**David Davies:** Oherwydd eich ymrwymiad i beri i gwangos weithio er budd gorau pawb yng Nghymru, a wnewch ystyried gweithgareddau Gwasanaeth Dylunio ac Ymgynghorol Cymru? A ydych yn ymwybodol o honiadau bod busnesau, pan ddeuant at Wasanaeth Dylunio ac Ymgynghorol Cymru am gyngor ynghylch gwneud prototeipiau, yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Ganolfan Ymchwil Peirianneg Dylunio? Mae'r corff hwnnw wedi ei leoli yn yr un adeilad yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac mae hefyd yn derbyn cyllid cyhoeddus. A gytunwch fod y ffaith bod y ddau gorff hyn yn cael eu rhedeg gan yr un person, yr Athro Brown, yn achosi gwrthdar o buddiannau posibl? Os na allwch roi ateb yn syth i mi ar hyn, a fyddwch gystal ag ysgrifennu ataf am weithgareddau'r cyrff hyn sydd, yr wyf yn credu, yn niweidiol i fusnesau bach, fel un a leolir ym Mrynbûga?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn gyfarwydd â'r mater hwnnw. Yr wyf finnau wedi gohebu â'r busnes bach ym Mrynbûga, y mae gennylf

admiration. This matter is probably better dealt with through correspondence. I have never regarded that body as, strictly speaking, a quango. Therefore, I am not sure that the conflict of interest that you allege relates to this question. However, I am happy to entertain correspondence with you, especially if you seek to draw my attention to anything untoward in the relationship between the two bodies and Professor Brown. I have never heard any personal criticism of him, although there is a difference of view between him and the firm in Usk.

**Llais i'r Cynulliad (Cyrff Anlywodraethol Ledled y DU)  
Voice for the Assembly (UK-Wide Non-Governmental Organisations)**

**Q4 Jenny Randerson:** Has the First Secretary had any discussions with the Secretary of State for Wales about the need for a direct voice for the Assembly in nominations to UK-wide quasi-autonomous non-governmental organisations? (OAQ4700)

I apologise for the omission of the key words ‘quasi-autonomous’ in the question on the order paper.

**The First Secretary:** I have never been persuaded of the virtue of the term Assembly sponsored public body as opposed to quango.

I have not discussed this matter with the Secretary of State for Wales. However, the previous First Secretary discussed with him the question of introducing a statutory basis to ensure that the Assembly is consulted on appointments made by other Secretaries of State in Westminster to non-departmental public bodies, quangos and Assembly sponsored public bodies of a wider-than-Wales character. That is not being done yet, but contacts continue about this matter at an official level.

**Jenny Randerson:** I am delighted to hear of progress on this issue. I believe that there are at least 37 UK-wide quangos on which we have representatives who purport to speak for Wales but on which neither you nor the rest of us have any right to influence appointments. If, in the interim, it were possible to push to include a voice for Wales

y parch mwyaf tuag ato. Gwell yw ymdrin â'r mater hwn drwy ohebiaeth yn ôl pob tebyg. Nid wyf erioed wedi ystyried y corff hwnnw'n gwango, a bod yn fanwl. Felly, nid wyf yn siŵr a yw'r gwrthdaro buddiannau a honnchw yn ymwneud â'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon gohebu â chi, yn enwedig os ceisiwch dynnu fy sylw at unrhyw beth anffafriol yn y berthynas rhwng y ddau gorff a'r Athro Brown. Ni chlywais unrhyw feirniadaeth bersonol arno erioed, er bod gwahaniaeth barn rhygddo a'r busnes ym Mrynbuga.

**C4 Jenny Randerson:** A fu unrhyw drafod rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr angen am lais uniongyrchol i'r Cynulliad mewn enwebiadau i gyrrf anlywodraethol lled-ymreolus ledled y DU? (OAQ4700)

Ymddiheuraf am adael allan y gair allweddol ‘lled-ymreolus’ yn y cwestiwn ar bapur y drefn.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf erioed wedi fy argyhoeddi o fantais y term corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o'i gyferbynny â chwango.

Ni thrafodais y mater hwn ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fodd bynnag, yr oedd y cyn Brif Ysgrifennydd wedi trafod y cwestiwn ag ef o gyflwyno sail statudol i sicrhau yr ymgynghorir â'r Cynulliad ynghylch penodiadau a wneir gan Ysgrifenyddion Gwladol eraill yn San Steffan i gyrrf cyhoeddus anadrannol, cwangos a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o'r math sydd yn ehangach na Chymru. Ni wneir hynny eto, ond mae'r cysylltiadau ynghylch y mater hwn yn parhau ar lefel swyddogol.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch iawn o glywed am gynnnydd ar y mater hwn. Credaf fod o leiaf 37 o gwangos ledled y DU y mae gennym gynrychiolwyr arnynt sydd yn cymryd arnynt siarad dros Gymru ond nad oes gennych chi na'r gweddill ohonom unrhyw hawl i ddylanwadu ar benodiadau iddynt. Pe bai modd, yn y cyfamser, bwyso

and for the Assembly in a concordat, for example, it might speed up the process of final legislation on this issue.

**The First Secretary:** We have influence over many of these appointments. The issue of whether you want to formalise it and whether Government departments or Ministers in Westminster are willing to do so does not mean that we do not have influence. I agree that we must get away from the tired old formulate that there must be a statutory Welsh man or woman on any quango or Royal Commission. That has probably been around since David Lloyd George was Prime Minister. Having a Commissioner for Public Appointments and an organised procedure should involve getting away from the tokenism of having a Welsh man or woman on every commission or board.

If there is a case on merit for having three Welsh men or women on a particular board, then there should be three rather than one. If there are no qualified Welsh men or women available, we should accept that on another board or Royal Commission that would be the case. There is a case for approaching this on merit. We must ensure that this is done in an organised way and that Wales's interests are not ignored. We sometimes use informal influence and sometimes it would be better if this were laid down in legislation on which we would be consulted. That has been written into some legislation that has been introduced in the past 12 months.

**Helen Mary Jones:** I am concerned about what Rhodri has just said. I hope that he is not implying that we should not be represented on public bodies that have jurisdiction over matters that are of concern to the people of Wales but are not matters for us. I am sure that that was not what he was implying, but I think that should be clarified. Given the additional responsibilities that devolution has created for some of the Welsh representatives on Assembly sponsored public bodies or quangos—I, like you prefer the old word—such as those of equality bodies like the Equal Opportunities Commission, the Commission for Racial Equality and the new Disability Rights Commission, will he give consideration to

dros gynnwys llais dros Gymru a thros y Cynulliad mewn concordat, er enghraifft, gallai gyflymu'r broses o ddeddfu'n derfynol ar y mater hwn.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gennym ddylanwad dros lawer o'r penodiadau hyn. Nid yw'r cwestiwn o ba un a ddymunwch ei ffurfioli ac a yw adrannau neu Weinidogion Llywodraeth yn San Steffan yn fodlon gwneud hynny yn golygu nad oes gennym ddylanwad. Cytunaf fod rhaid inni ddianc o'r hen fformwla dreuliedig bod rhaid cael Cymro neu Gymraes statudol ar unrhyw gwango neu Gomisiwn Brenhinol. Mae'n debyg bod hynny'n bod er pan oedd David Lloyd George yn Brif Weinidog. Pe bai Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a gweithdrefn drefnus, dylai hynny olygu dianc o'r symboliaeth o gael Cymro neu Gymraes ar bob comisiwn neu fwrdd.

Os oes dadl ar sail teilyngdod dros gael tri Chymro neu dair Cymraes ar fwrdd penodol, dylai fod tri neu dair yn hytrach nag un. Os nad oes Cymry neu Gymraesau cymwys ar gael, dylem dderbyn mai felly y bydd ar fwrdd neu Gomisiwn Brenhinol arall. Mae dadl dros ymdrin â hyn ar sail teilyngdod. Rhaid inni sicrhau y gwneir hyn mewn modd trefnus ac nad anwybyddir buddiannau Cymru. Yr ydym weithiau'n defnyddio dylanwad anffurfiol a byddai'n well weithiau pe cai hyn ei osod mewn deddfwriaeth y byddai ymgynghori â ni yn ei chylch. Mae hynny wedi ei gynnwys yn rhai o'r deddfau a gyflwynwyd yn y 12 mis diwethaf.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn bryderus ynghylch yr hyn y mae Rhodri newydd ei ddweud. Hyderaf nad yw'n awgrymu na ddylem gael cynrychiolaeth ar gyrrf cyhoeddus sydd ag awdurdod dros faterion sydd o bwys i bobl Cymru ond sydd heb fod yn faterion i ni. Yr wyf yn sicr nad hynny a awgrymai, ond credaf y dylid rhoi gwedd eglurach ar hynny. O ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol a greodd datganoli i rai o'r cynrychiolwyr o Gymru ar gyrrf cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu gwangos—fel chithau, mae'n well gennyl yr hen air—fel rhai cyrff cydraddoldeb fel y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd newydd, a yw'n fodlon ystyried

pressing the sponsoring departments in Westminster to allow more time for representatives to do the additional work required under devolution?

**The First Secretary:** That question is in two parts. I was exploring the possibility that there is a better way of making appointments than how they have been made over the past 100 years where, almost automatically, there is a token Welsh man or woman on every commission or board. I am confident that, if appointments were based on the merit of the Welsh population, we would be more likely to have more representation than the token one.

As for the Disability Rights Commission and other equal opportunity related bodies, I think that such bodies wish to ensure that they have a good geographical and sectoral spread concerned with different types of disabilities, inequalities or disadvantage. Most Assembly Members would like to be a fly on the wall when appointments are considered in London and when the issue of how to consult the Assembly, the Assembly Secretaries or Plenary are discussed. In general, Government departments in London ensure that we are consulted and that we can voice our opinion. When the board of S4C is appointed, we are consulted on a massive scale because the Department of Culture, Media and Sport cannot see the programmes and, even if it could, it would not understand them. It is technically the DCMS's appointment but it wants us to be involved in the same way that a Government department in London normally would. I am not sure how big a problem this is in ensuring that we are fully consulted. There are probably one or two wrinkles in some departments that have not recognised the reality of devolution as quickly as others. I do not think that it is a major problem but I would be grateful to hear from anybody who thinks it is.

**Alun Cairns:** Thank you for using the term quangos rather than Assembly sponsored public bodies, which other Cabinet members have used. I agree with you that we should move away from the tokenism of having a Welsh member on quangos. The Food Standards Agency is an England and Wales

pwysio ar yr adrannau noddi yn San Steffan i ganiatáu mwy o amser i glynrychiolwyr gyflawni'r gwaith ychwanegol sydd yn angenrheidiol o dan ddatganoli?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae dwy ran i'r cwestiwn hwnnw. Yr oeddwn yn ymchwilio i'r posibiliad bod gwell ffordd o benodi na'r modd y'i gwnaethpwyd dros y 100 mlynedd diwethaf lle y mae Cymro neu Gymraes symbolaidd, yn ddifeddwl bron, ar bob comisiwn neu fwrdd. Yr wyf yn ffyddiog, pe bai penodiadau'n seiliedig ar deilyngdod poblogaeth Cymru, y byddem yn fwy tebygol o gael mwy o glynrychiolaeth na'r un symbolaidd.

O ran y Comisiwn Hawliau Anabledd a chyrff eraill sydd yn ymwneud â chydreddoldeb, credaf fod cyrff o'r fath yn dymuno sicrhau bod ganddynt ddosbarthiad daearyddol a sectoraidd da sydd yn gysylltiedig â gwahanol fathau o anableddau, anghydreddoldebau neu anfantais. Hoffai'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad fod yn bryf ar y pared pan ystyri penodiadau yn Llundain a phan drafodir y cwestiwn o sut i ymgynghori â'r Cynulliad, yr Ysgrifenyddion Cynulliad neu'r Cyfarfod Llawn. Ar y cyfan, mae adrannau Llywodraeth yn Llundain yn sicrhau yr ymgynghorir â ni ac y cawn leisio ein barn. Pan benodir bwrdd S4C, ymgynghorir â ni'n helaeth iawn oherwydd ni all yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon weld y rhagleni a, hyd yn oed pe gallai, nis deallai. Penodiad yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ydyw'n dechnegol ond dymuna inni gymryd rhan yn yr un modd ag y byddai adran Llywodraeth yn Llundain fel arfer. Nid wyf yn sicr o faint y broblem hon o ran sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â ni. Mae un neu ddau o frychau yn ôl pob tebyg mewn rhai adrannau na chydnbauasant realiti datganoli cyn gynted ag eraill. Ni chredaf ei bod yn broblem fawr ond byddwn yn ddiolchgar o glywed gan unrhyw un sydd yn credu ei bod.

**Alun Cairns:** Diolch i chi am ddefnyddio'r term cwangos yn hytrach na chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a ddefnyddiwyd gan aelodau eraill o'r Cabinet. Cytunaf â chi y dylem symud oddi wrth y symboliaeth o gael aelod Cymreig ar gwangos. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd

based quango from which Wales can benefit from England's expertise. In England and Wales quangos, we can share the expertise that lies in Wales with other parts of the United Kingdom.

**The First Secretary:** I agree with that. Devolution has not meant the end of the creation of England and Wales quangos. They will continue to play a major part at this partially democratic level, depending on how good the accountability arrangements are. When that happens, in bodies such as the Food Standards Agency the level of expertise on matters of food and public health, food safety, consumer interest and information must be ensured. I am confident that when you do that—provided that you do not rely on some old boy's network in the gentleman's club in Pall Mall—we would get good representation based on merit from Wales. However, we must ensure that the Assembly trawls among people in Wales to ensure they realise that they can put their names forward without fear of being dismissed out of hand because they are not members of gentleman's clubs in Mayfair.

2:30 p.m.

### **Uwch Gynhadledd Lisbon (Cyfraniad Cymru) Lisbon Summit (Wales's Contribution)**

**Q5 Phil Williams:** What plans does the First Secretary have to ensure that Wales contributes to the UK's ability to meet the targets agreed by European leaders during their Lisbon summit? (OAQ4707)

**The First Secretary:** I assume that the targets to which you refer are the ones relating to the development of small and medium sized enterprises, the enhancement of research capacity and the shift to a knowledge-based economy. All of those fit in well with aspects of our Objective 1 programme and with the policy outlines in 'Betterwales.com'. The Economic Development Committee will want to examine the conclusions of the Lisbon summit and consider their practical implications for Wales. The Huggins report from the Cardiff University Centre for Advanced Studies gave us a low rating. We

yn gwango ar gyfer Cymru a Lloegr y gall Cymru elwa drwyddi o arbenigedd Lloegr. Yng nghwangos Cymru a Lloegr, gallwn rannu'r arbenigedd a geir yng Nghymru â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cytunaf â hynny. Nid yw datganoli wedi golygu diwedd ar greu cwangos dros Gymru a Lloegr. Byddant yn dal i chwarae rhan bwysig ar y lefel rannol ddemocratiaidd hon, yn ôl pa mor dda yw'r trefniadau atebolrwydd. Pan ddigwydd hynny, mewn cyrff fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd rhaid sicrhau lefel yr arbenigedd ar faterion bwyd a iechyd cyhoeddus, diogelwch bwyd, buddiant y defnyddwyr a gwybodaeth. Yr wyf yn ffyddiog, pan wnewch hynny—ar yr amod na ddibynnwch ar ryw rwydwaith o hen ddisgyblion yng nghlwbyd y boneddigion yn Pall Mall—y caem gynrychiolaeth dda ar sail teilyngdod o Gymru. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod y Cynulliad yn chwilio ymyst pobl Cymru i sicrhau eu bod yn sylweddoli y gallant gyflwyno eu henwau heb ofni cael eu diystyr u'n ddifeddwel am nad ydynt yn aelodau o glybiau boneddigion yn Mayfair.

**C5 Phil Williams:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu at allu'r DU i gyrraedd y targedau a gytunwyd gan arweinwyr Ewropeaidd yn ystod yr uwchgynhadledd yn Lisbon? (OAQ4707)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cymeraf mai'r targedau y cyfeiriwch atynt yw'r rhai sydd yn ymwneud â datblygu busnesau bach a chanolig eu maint, hybu'r gallu ymchwil a'r symudiad at economi sydd yn seiliedig ar wybodaeth. Mae pob un o'r rheini'n cydweddu'n dda ag agweddau ar ein rhaglen Amcan 1 a'r amlinelliadau polisi yn 'Gwellycymru.com'. Bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd eisiau edrych ar benderfyniadau'r uwchgynhadledd yn Lisbon ac ystyried eu goblygiadau ymarferol i Gymru. Yr oedd adroddiad Huggins o Ganolfan Uwchastudiaethau Prifysgol Caerdydd yn rhoi statws isel i ni. Yr ydym yn

have been saying for some months that there is a need to do something with our ability to generate new jobs in the growth sectors of the economy for knowledge-based industries and the research capability within Wales if it is to catch up with more advanced regions. The identification of the nub of the problem of the Welsh economy in the Huggins report is nothing new. However, the report gets to the heart of it and we must do something about building it up. It fits in well with the Lisbon summit conclusions.

dweud ers rhai misoedd bod angen gwneud rhywbeth â'n gallu i greu swyddi newydd yn sectorau twf yr economi ar gyfer diwydiannau sydd yn seiliedig ar wybodaeth a'r gallu ymchwil oddi mewn i Gymru os yw i oddiwedd y rhanbarthau mwy datblygedig. Nid oes dim yn newydd yn y dynodiad o graidd y broblem yn economi Cymru sydd yn adroddiad Huggins. Fodd bynnag, â'r adroddiad at hanfod hynny a rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch ei gryfhau. Mae'n cydwedu'n dda â phenderfyniadau'r uwchgynhadledd yn Lisbon.

**Phil Williams:** I fear that our policy on research and development is the least convincing of the three and I am concerned about that. One of the measures agreed is the establishment of a European innovation scoreboard. By June of this year, I assume that your Government, through the UK Government, will be responsible for reporting on policies for promoting research and development. Bearing in mind the present shortfall that we have of less than 2 per cent of research and development for 5 per cent of the population, what policies will you report to persuade the European Union that the Government of Wales has serious plans to close that gap quickly?

**Phil Williams:** Ofnaf mai ein polisi ar ymchwil a datblygu yw'r lleiaf argyhoeddiadol o'r tri a phryderaf ynghylch hynny. Un o'r mesurau a gytunwyd yw sefydlu bwrdd sgorio arloesi Ewropeaidd. Erbyn Mehefin eleni, cymeraf y bydd eich Llywodraeth, drwy gyfrwng Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am adrodd ar bolisiau i hybu ymchwil a datblygu. Gan gofio'r diffyg presennol sydd gennym o lai na 2 y cant o ymchwil a datblygu am 5 y cant o'r boblogaeth, pa bolisiau y byddwch yn adrodd amdanynt i argyhoeddi'r Undeb Ewropeaidd bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau difrif i gau'r bwlch hwnnw'n gyflym?

**The First Secretary:** As a research scientist, that is something about which you have been concerned for many decades and I share your concerns. Apart from the Institute of Grassland Research in Aberystwyth and the new biomedical research institute that is to be built on the site of the medical school in Cardiff, there are few publicly funded research institutes. That also applies to university research. It requires more than the kind of funding that most university departments can obtain. In terms of the fixed bodies that can draw in big time money from the science research council and others, Wales has always suffered badly by comparison with Scotland and many of the English regions leaving aside Oxford and Cambridge's domination of this discipline within the United Kingdom. A knowledge-based economy is now recognised as a definite part of the economic tools of the trade to ensure an evening up of the weaker regions with the richer. That is a key part of

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel gwyddonydd ymchwil, mae hynny'n rhywbeth y buoch yn pryderu yn ei gylch ers degawdau lawer a rhannaf eich pryderon. Ar wahân i'r Sefydliad Ymchwil Glaswelltir yn Aberystwyth a'r sefydliad ymchwil biomeddygol newydd sydd i'w godi ar safle'r ysgol feddygol yng Nghaerdydd, prin yw'r sefydliadau ymchwil a noddir gan y cyhoedd. Mae hynny hefyd yn wir am ymchwil gan brifysgolion. Mae'n gofyn mwy na'r math o gyllid sydd ar gael i'r rhan fwyaf o adrannau prifysgol. O ran y cyrff sefydlog sydd yn gallu denu arian mawr o'r cyngor ymchwil wyddonol ac eraill, mae Cymru wedi dioddef yn ddrwg erioed o'i chymharu â'r Alban a llawer o ranbarthau Lloegr heb roi ystyriaeth i dra-arglwyddiaeth Rhydychen a Chaergrawnt ar y ddisgyblaeth hon oddi mewn i'r Deyrnas Unedig. Gwelir economi'n seiliedig ar wybodaeth yn rhan bendant bellach o'r arfau economaidd i sicrhau cyfartalu rhwng y rhanbarthau gwannaf a'r

trying to ensure that the knowledge-based economy takes off in Europe in the same way as the USA and I am hopeful that we can act more quickly in correcting the Welsh deficit in science funding.

**Jonathan Morgan:** I am sure that many people in this Chamber would wish to express their support for the targets outlined in the Lisbon summit. Do you agree that it should be a priority to link every school in Wales to the internet as suggested by the Prime Minister? Will you give a guaranteed date by which the Government of Wales will achieve this?

**The First Secretary:** That moves a little bit off the issue of the Lisbon summit conclusions. However, we are keen to see a full hook-up of Welsh schools to the internet. That is fairly well established in the USA. It is not universal yet. It is the UK Government's intention to see that it happens in the UK. As far as Wales is concerned, I cannot give a target date. When a date becomes feasible, I will ensure that the Chamber knows.

rhai cyfoethocaf. Mae hynny'n rhan allweddol o geisio sicrhau bod yr economi sydd yn seiliedig ar wybodaeth yn cychwyn yn Ewrop yn yr un modd ag yn UDA ac yr wyf yn ffyddio y gallwn weithredu'n gyflymach wrth gywi'r diffyg yng Nghymru mewn cyllid gwyddoniaeth.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn sicr y byddai llawer yn y Siambra hon yn dymuno datgan eu cefnogaeth i'r targedau a amlinellwyd yn yr uwchgynhadledd yn Lisbon. A gytunwch y dylai fod yn flaenorïaeth cysylltu pob ysgol yng Nghymru â'r rhyngrwyd fel yr awgrymwyd gan y Prif Weinidog? A ydych yn fodlon rhoi sicrwydd o ddyddiad ar gyfer cyflawni hynny gan Lywodraeth Cymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hynny'n mynd ychydig oddi wrth fater y penderfyniadau yn yr uwchgynhadledd yn Lisbon. Fodd bynnag, yr ydym yn awyddus i weld pob ysgol yng Nghymru wedi ei chysylltu â'r rhyngrwyd. Mae hynny wedi ei sefydlu'n eithaf cadarn yn UDA. Nid yw'n fydd-eang eto. Bwriad Llywodraeth y DU yw sicrhau y digwydd hynny yn y DU. O ran Cymru, ni allaf roi dyddiad targed. Pan fydd modd rhoi dyddiad, byddaf yn sicrhau y caiff y Siambra wybod.

### **Datganiad ar y Map Ardaloedd a Gynorthwyir Statement on the Assisted Areas Map**

**The First Secretary:** Yesterday, the UK Government announced the start of a consultation period until 2 May on revised proposals for the assisted areas map, which has now been submitted by the Government for the European Commission's approval. The lack of an assisted areas map has concerned me in my economic development function, particularly since the European Commission has approved a map for Ireland, which is our nearest competitor in another member state. The fact that we do not have a map and that our nearest neighbour has had one since 31 December puts Wales in an unfavourable competitive position. Although Assembly officials have continued to make indicative offers of regional selective assistance, we all recognised that that situation could not continue for any length of time without resulting in considerable loss of future job prospects. Therefore, I am pleased that the Government is now moving forwards

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ddoe, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddechrau cyfnod ymgynghori hyd 2 Mai ar gynigion diwygiedig ar gyfer y map ardaloedd a gynorthwyir, sydd bellach wedi ei gyflwyno gan y Llywodraeth i'w gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bu diffyg map ardaloedd a gynorthwyir yn destun pryder i mi yn fy swyddogaeth datblygu economaidd, yn enwedig ers i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo map ar gyfer Iwerddon, sef ein cystadleuydd agosaf mewn aelod wladwriaeth arall. Mae'r ffaith nad oes gennym fap a bod un gan ein cymydog agosaf ers 31 Rhagfyr yn rhoi Cymru mewn sefyllfa gystadleuol anffafriol. Er bod swyddogion y Cynulliad wedi parhau i roi cynigion dangosol o gymorth rhanbarthol dewisol, yr oeddem oll yn cydnabod na allai'r sefyllfa honno barhau'n hir heb arwain at gryn golled o ran rhagolygon swyddi yn y dyfodol. Felly, yr wyf yn falch bod y

in submitting new proposals for the Commission's approval.

The new proposed assisted areas map is broadly similar to the one drafted last July and, overall, it represents a good deal for Wales. There is no change to the Objective 1 areas carrying over to full development area status. The original proposals have been altered in line with changes required by the European Commission to the way the map was devised. The principal change is in ensuring that areas in lower case—the intermediate development area category—are contiguous, substantial in terms of population, and have a large number of industrial sites relative to the level of population. Otherwise, the European Commission would take the view that the population cut on which it insisted was being circumnavigated by choosing wards with a low population but with large industrial sites.

We fought vigorously for the inclusion of parts of Barry, Wrexham and parts of Flintshire on the map but, ultimately, we could not get everything that we wanted into the map. However, the changes imposed by Europe have resulted in the proportionate loss of population in the Welsh intermediate assisted area, being identical to England and Scotland. At the same time, the new methodology has enabled the inclusion of other strategically important areas in Wales. Some important sites will be included in the Government proposals that were not in the previous proposals and their inclusion is the result of considerable co-operation between local government and Assembly officials. During the next three weeks, the UK Government will consult with business, local government and academics on the new map. I hope that the Commission will give the map its early approval so that the Assembly can continue to provide the key forms of business support, particularly regional selective assistance, that helped to develop the Welsh economy.

**Phil Williams:** You will already be aware of the deep disappointment throughout north-east Wales over the perceived failure to give full support to BAE Systems' plans for the

Llywodraeth yn symud ymlaen yn awr tuag at gyflwyno cynigion newydd i'w cymeradwyo gan y Comisiwn.

Mae'r map ardaloedd a gynorthwyr arfaethedig newydd yn fwy neu lai yr un fath â'r un a ddrafftawyd fis Gorffennaf diwethaf ac, at ei gilydd, mae'n golygu bargin dda i Gymru. Nid oes newid o ran trawsnewid yr ardaloedd Amcan 1 yn rhai â statws ardal ddatblygu llawn. Newidiwyd y cynigion gwreiddiol yn unol â newidiadau a fynnwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn y modd y dyfeisiwyd y map. Y prif newid yw sicrhau bod ardaloedd mewn llythrennau bach—y dosbarth ardaloedd datblygu rhngol—yn gyffiniol, yn sylweddol o ran poblogaeth, a bod ynddynt nifer fawr o safleoedd diwydiannol mewn cymhariaeth â lefel y boblogaeth. Fel arall, byddai'r Comisiwn Ewropeaidd o'r farn bod y toriad mewn poblogaeth a fynnai yn cael ei osgoi drwy ddethol wardiau â phoblogaeth isel ond safleoedd diwydiannol mawr.

Ymladdasom yn egnol dros gynnwys rhannau o'r Barri, Wrecsam a rhannau o Sir y Fflint yn y map ond, yn y pen draw, ni allem gynnwys popeth a ddymunem yn y map. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a orfodwyd gan Ewrop wedi arwain at golled poblogaeth anghymesur yn yr ardal a gynorthwyr rhngol yng Nghymru, yn yr un modd ag yn Lloegr a'r Alban. Ar yr un pryd, mae'r fethodoleg newydd wedi ei gwneud yn bosibl cynnwys ardaloedd strategol bwysig eraill yng Nghymru. Cynhwysir rhai safleoedd pwysig yng nghynigion y Llywodraeth nad oeddent yn y cynigion blaenorol ac mae eu cynnwys yn ganlyniad i gryn gydweithredu rhwng llywodraeth leol a swyddogion y Cynulliad. Yn ystod y tair wythnos nesaf, bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â busnes, llywodraeth leol ac academyddion ar y map newydd. Gobeithiaf y bydd y Comisiwn yn cymeradwyo'r map yn fuan fel y gall y Cynulliad barhau i ddarparu'r ffurfiâu allweddol o gymorth busnes, yn enwedig cymorth rhanbarthol dewisol, a gynorthwyodd i ddatblygu economi Cymru.

**Phil Williams:** Byddwch eisoes yn ymwybodol o'r siom fawr ledled gogledd-ddwyrain Cymru ynghylch y methiant canfyddedig i roi cefnogaeth lawn i

new airbus. That is now followed by the failure to secure Objective 2 status for any area in the north-east. I am sure that you will be conscious of the anger, especially in Wrexham, over the decision to remove so much of the assisted areas map from the north-east while expanding the areas eligible for RSA in the south. We must be conscious of a deepening sense that the Assembly—as people in the north-east see it—is only looking after the interests of the south. Do you accept that it is a matter of great priority to reassure people in north-east Wales of the importance of that area's economic development in securing our overall economic strategy? You mentioned that in the next three weeks there will be consultation with business, local government and academics. There seems to be a significant omission from that list of Welsh representation. There is no reference to consultation with the Assembly. I will refer to the point raised when the initial map was submitted: we must press hard for the view of this democratically elected body to be heard on such an important issue.

gynlluniau BAE Systems ar gyfer y bws awyr newydd. Dilynr hynny'n awr gan y methiant i sicrhau statws Amcan 2 ar gyfer unrhyw ardal yn y gogledd-ddwyrain. Yr wyf yn sicr y byddwch yn ymwybodol o'r dipter, yn enwedig yn Wrecsam, ynghylch y penderfyniad i ddileu cymaint o'r map ardaloedd a gynorthwyr yn y gogledd-ddwyrain tra'n ehangu'r ardaloedd sydd yn gymwys i dderbyn cymorth rhanbarthol dewisol yn y de. Rhaid inni fod yn ymwybodol o ymdeimlad cynyddol nad yw'r Cynulliad— yng ngolwg pobl yn y gogledd-ddwyrain—ddim ond yn gofalu am fuddiannau'r de. A dderbyniwch mai mater o flaenoriaeth fawr yw rhoi sicrwydd i bobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru am bwysigwydd datblygiad economaidd yr ardal honno wrth sicrhau ein strategaeth economaidd gyffredinol? Dywedasoch y bydd ymgynghori yn y tair wythnos nesaf â busnes, llywodraeth leol ac academyddion. Ymddengys bod un o bwys wedi ei adael allan o'r rhestr honno o gynrychiolaeth o Gymru. Nid oes cyfeiriad at ymgynghori â'r Cynulliad. Cyfeiriaf at y pwynt a godwyd pan gyflwynwyd y map cyntaf: rhaid inni bwys o'n galed dros gael gwrandawiad i farm y corff democrataidd etholedig hwn ar fater mor bwysig.

2:40 p.m.

**The First Secretary:** That is a misunderstanding. As we are a corporate body, we cannot say that we will consult ourselves. We are consultees, although you can hardly call the Assembly a consultee. Views such as those expressed today and in the Economic Development Committee will automatically be taken into account.

I do not share Phil's views on the impact of these changes on north Wales. He contradicts himself—I would have thought that the people of north Wales would be pleased that Broughton is now in the proposed assisted areas map. Furthermore, the Point of Ayr area of Flintshire is included. I believe that he is trying to say that the whole of north Wales will be devastated by today's announcement. He might well say that about Wrexham—I am sure that there is understandable disappointment in Wrexham—but I do not

**Y Prif Ysgrifennydd:** Camsyniad yw hynny. Gan ein bod yn gorff corfforaethol, ni allwn ddweud y byddwn yn ymgynghori â ni'n hunain. Yr ydym yn ymgynghoredigion, er mai prin y gallech alw'r Cynulliad yn ymgynghoredig. Bydd safbwytiau fel y rhai a fynegir heddiw ac yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn awtomatig.

Nid wyf yn rhannu barn Phil am effaith y newidiadau hyn ar ogledd Cymru. Mae'n ei wrthddweud ei hun—tybiwn i y byddai pobl gogledd Cymru yn falch bod Brychdyn bellach yn y map ardaloedd a gynorthwyr arfaethedig. At hynny, mae ardal y Parlwr Du o Sir y Fflint wedi ei chynnwys. Credaf ei fod yn ceisio dweud y bydd y cyfan o ogledd Cymru'n cael ei ddistrwyio gan y cyhoeddiad heddiw. Gallai ddweud hynny am Wrecsam—yr wyf yn siŵr bod siom ddealladwy yn Wrecsam—ond ni chredaf y

believe that Flintshire will share that disappointment. One part of north Wales is not doing well, as distinct from another that will be deeply relieved. I would have thought that the south eastern corner around Broughton and the north western corner around Ffynnongroyw, Point of Ayr and Prestatyn will be delighted that they have been proposed for inclusion in the map.

**Alun Cairns:** I agree with some of Phil Williams's comments, particularly on the north-south divide. Your statement notes that you fought vigorously to include parts of Barry, Wrexham and Flintshire within the regional selective assistance map. What communications have there been between you and Westminster and will you publish those communications in the spirit of open government? What communications have come back rejecting it? Will you highlight why we have been prevented from including Barry, Wrexham and Flintshire within the regional selective assistance map? Regional selective assistance is one way of offering some state support to many organisations and areas outside the Objective 1 map. Is not the exclusion of Barry, Wrexham and Flintshire—particularly in relation to north east Wales, after snubbing Broughton by not awarding them the £25 million of regional selective assistance—particularly bad news for them and, on the whole, bad news for Wales?

**The First Secretary:** I am not sure whether Alun Cairns is agreeing or disagreeing with Phil Williams. He started by saying that he thought that Phil was wrong and ended by repeating almost exactly what Phil said. Broughton has been included and, therefore, the £25 million RSA grant not awarded to BAE Systems is irrelevant. I am not certain what he is trying to say.

**Phil Williams rose—**

**The Presiding Officer:** You have asked your question.

**The First Secretary:** Alun Cairns is right that Wrexham and parts of Barry have been omitted. However, parts of the Vale of

bydd Sir y Fflint yn rhannu'r siom honno. Mae un rhan o ogledd Cymru nad yw'n gwneud yn dda, o'i chyferbynny ag un arall a fydd yn teimlo rhyddhad mawr. Tybiwn fod y rhai yn y gornel dde-ddwyreiniol o gwmpas Brychdyn a'r gornel ogledd-orllewinol o amgylch Ffynnongroyw, y Parlwr Du a Phrestatyn wrth eu bodd eu bod wedi eu cynnig i'w cynnwys yn y map.

**Alun Cairns:** Cytunaf â rhai o sylwadau Phil Williams, yn enwedig ar y rhaniad rhwng y de a'r gogledd. Mae'ch datganiad yn nodi eich bod wedi ymladd yn egniol dros gynnwys rhannau o'r Barri, Wrecsam a Sir y Fflint oddi mewn i'r map cymorth rhanbarthol dewisol. Pa negeseuon a fu rhyngoch chi a San Steffan ac a wnewch gyhoeddi'r negeseuon hynny yn unol ag ysbryd llywodraethu agored? Pa negeseuon a ddaeth yn ôl yn ei wrthod? A nodwch y rheswm pam y'n rhwystriwyd rhag cynnwys y Barri, Wrecsam a Sir y Fflint yn y map cymorth rhanbarthol dewisol? Mae cymorth rhanbarthol dewisol yn un ffordd o gynnig rhywfaint o gymorth gwladol i lawer o gyrff ac ardaloedd oddi allan i'r map Amcan 1. Onid yw cau allan y Barri, Wrecsam a Sir y Fflint—yn enwedig mewn perthynas â gogledd-ddwyrain Cymru, ar ôl anwybyddu Brychdyn drwy beidio â dyfarnu iddynt y £25 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol—yn newyddion arbennig o ddrwg iddynt hwy ac, ar y cyfan, yn newyddion drwg i Gymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn sicr a yw Alun Cairns yn cytuno ynteu'n anghytuno â Phil Williams. Dechreuodd drwy ddweud ei fod yn credu bod Phil yn anghywir a gorffennodd drwy ailadrodd yr hyn a ddywedodd Phil yn union bron. Mae Brychdyn wedi ei gynnwys ac, felly, mae'r grant cymorth rhanbarthol dewisol na ddyfarnwyd i BAE Systems yn amherthnasol. Nid wyf yn sicr o'r hyn y mae'n ceisio ei ddweud.

**Phil Williams a gododd—**

**Y Llywydd:** Gofynasoch eich cwestiwn.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Alun Cairns yn gywir wrth ddweud bod Wrecsam a rhannau o'r Barri wedi eu gadael allan. Fodd bynnag,

Glamorgan, which were not previously included in the map, are now included. I do not believe, therefore, that the Vale of Glamorgan as a whole has been completely disadvantaged. The issue is almost like the Arts Council of Wales issue that I mentioned earlier. If there will be a cut of such-and-such per cent in the population coverage, that cut will be the same in Wales, Scotland and England.

We try to argue the best possible case for Wales, but you will not get everything that you want. In the end, you will not get the whole of Wales included in this map. Excluded areas will inevitably feel aggrieved. On the other hand, you must take a balanced view. You cannot get everything in. How do you decide which areas to include and which to exclude? Whatever you decide, local Assembly Members and local authorities are bound to kick up a fuss. It is a difficult issue once you accept that you will not get the whole of Wales into the assisted areas map—either as a full development area, where two thirds of Wales would be included, or the further 8 or 9 per cent that we have now got into the second tier assisted areas map.

**Michael German:** I wish to pick up on your last point. My understanding is that wards in Flintshire have been excluded from the RSA map, and that the area around BAE Systems in Broughton was included, and has remained, in the original map. It is bad news for Flintshire to have these wards taken out, which means that most of the county is excluded. Similarly with Wrexham—there must be great dismay there, as there is in Barry. What is happening in north-east Wales is the shrinkage of support that Government provides. We have had the BAE Systems disappointment at Broughton, and Objective 2 assisted status has been lost to them. There is a danger that Flintshire and Wrexham will become sandwiched between the Wales and Merseyside Objective 1 areas, and that their levels of support will lead to decline and people migrating outwards for jobs. We will need to look at that.

We should be looking at the methodology

mae rhannau o Fro Morgannwg, nad oeddent cynt wedi eu cynnwys yn y map, bellach wedi eu cynnwys. Ni chredaf, felly, fod Bro Morgannwg yn ei chyfarwydd wedi ei rhoi'n llwyr o dan anfantais. Mae'r mater bron yn debyg i fater Cyngor Celfyddydau Cymru y cyfeiriais ato'n gynharach. Os bydd toriad o hyn-a-hyn y cant yn y boblogaeth a gynhwysir, bydd y toriad yr un fath yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

Ceisiwn ddadlau'r achos gorau posibl dros Gymru, ond ni chewch bopeth yr ydych am ei gael. Yn y diwedd, ni lwyddwch i gynnwys Cymru gyfan yn y map hwn. Mae'n anorffod y bydd ardaloedd a adawyd allan yn teimlo iddynt gael cam. Ar y llaw arall, rhaid ichi edrych yn gytbwys ar hyn. Ni allwch gynnwys popeth. Sut yr ydych yn penderfynu pa ardaloedd i'w cynnwys a pha rai i'w gadael allan? Beth bynnag a benderfynwch, mae Aelodau Cynulliad lleol ac awdurdodau lleol yn sicr o godi helynt. Mae'n fater anodd ar ôl ichi dderbyn na lwyddwch i gael Cymru gyfan yn y map ardaloedd a gynorthwyir—un ai fel ardal ddatblygu lawn, lle y cynhwysid dwy ran o dair o Gymru, neu'r 8 neu 9 y cant pellach yr ydym wedi ei gael yn awr yn y map rhanbarthau cymorth o'r ail haen.

**Michael German:** Dymunaf ddilyn eich pwyt olaf. Yr hyn a ddeallaf fi yw bod wardiau yn Sir y Fflint wedi eu gadael allan o'r map cymorth rhanbarthol dewisol, a bod yr ardal o gwmpas BAE Systems ym Mrychdyn wedi ei chynnwys, ac wedi aros, yn y map gwreiddiol. Mae'n newyddion drwg i Sir y Fflint bod y wardiau hyn wedi eu tynnu allan, sydd yn golygu bod y rhan fwyaf o'r sir wedi ei gadael allan. A'r un modd yn achos Wrecsam—rhaid bod siom fawr yn y fan honno, fel y mae yn y Barri. Yr hyn sydd yn digwydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yw crebachu o'r cymorth a ddarperir gan y Llywodraeth. Cawsom y siom yngylch BAE Systems ym Mrychdyn, ac maent wedi colli statws cymorth Amcan 2. Mae perygl y bydd Sir y Fflint a Wrecsam yn cael eu gwasgu rhwng ardaloedd Amcan 1 Cymru a Glannau Mersi, ac y bydd y lefelau o gymorth iddynt yn arwain at ddirywiad a phobl yn allfudo i gael swyddi. Bydd angen inni edrych ar hynny.

Dylem ystyried y fethodoleg sydd y tu ôl i'r

behind these maps so that there is transparency of operation and so that people are aware of the operational requirements and how they are put together. Disappointments in north-east Wales and Barry will need to be explained. We are still not clear from the information you have given us as to how that would come about. What influence do you have over the map and how it was determined? There is reference to the Welsh Local Government Association and the Assembly. Presumably that means you and the WLGA. Would it have been wise to involve more of us in that process?

**The First Secretary:** The methodology determines the outcome. Once the Commission says that it wants a 27 per cent cut in population coverage of assisted areas throughout the European Community, every member state has to take a 27 per cent cut or whatever the figure might be. You must then decide the criteria by which you will choose where the 27 per cent cut will go. The original methodology would have selected chains of wards. In the Vale of Glamorgan, it involved going around the top end of Cardiff and Barry, via Peterston-super-Ely and even the parish of Michaelston-le-Pit, which is known to the Llywydd and myself, and through to Cardiff Wales Airport. The European Commission rejected that strategy. They wanted contiguous chunky areas of about 100,000 population, and also wanted the omitted areas to be chunky areas of around 100,000 population.

That was a huge restriction. It meant that we could do a bit of an area like Cardiff because it has 320,000 people, but we could not do a bit of Wrexham or the Vale of Glamorgan, although we managed to include three wards on the western side of the Vale of Glamorgan. It meant that either the whole of the Vale of Glamorgan, barring those three wards, was in or was out, and likewise for Newport and Wrexham. If the whole of Wrexham had been in, the rest of north-east Wales would have been out. That is why the areas closest to the Merseyside and Rhyl Objective 1 areas could be included on contiguity grounds. Mike and I have a difference of view on Broughton. Perhaps my memory or his memory is failing. I will write

mapiau hyn fel bod tryloywder o ran gweithredu ac fel bod pobl yn ymwybodol o'r gofynion gweithredol a'r modd y'u rhoddir wrth ei gilydd. Bydd angen egluro'r siomiannau yng ngogledd-ddwyrain Cymru a'r Barri. Nid yw'n glir inni o hyd o'r wybodaeth a roddasoch i ni sut y digwyddai hynny. Pa ddyylanwad sydd gennych dros y map a'r modd y'i penderfynwyd? Mae cyfeiriad at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynulliad. Ystyr hynny, yn ôl pob tebyg, yw chi a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. A fuasai'n ddoeth cynnwys mwy ohonom yn y broses honno?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y fethodoleg sydd yn penderfynu'r canlyniad. Unwaith i'r Comisiwn ddweud ei fod am gael toriad o 27 y cant yn y boblogaeth a gynhwysir mewn ardaloedd a gynorthwyir ledled y Gymuned Ewropeaidd, rhaid i bob aelod wladwriaeth dorri 27 y cant neu beth bynnag yw'r ffigur. Wedyn rhaid ichi benderfynu'r meini prawf a ddefnyddiwch i ddewis lle y bydd y toriad o 27 y cant. Byddai'r fethodoleg wreiddiol wedi dewis cadwyni o wardiau. Ym Mro Morgannwg, golygai fynd o gwmpas pen uchaf Caerdydd a'r Barri, drwy Lanbedr-y-fro a hyd yn oed plwyf Llanfihangel-y-pwll, sydd yn gyfarwydd i'r Llywydd a minnau, a drwodd hyd Faes Awyr Cymru Caerdydd. Gwrthododd y Comisiwn Ewropeaidd y strategaeth honno. Yr oeddent am gael ardaloedd swmpus o tua 100,000 o boblogaeth, ac yr oedd hefyd am i'r ardaloedd a adawyd allan fod yn ardaloedd swmpus o tua 100,000 o boblogaeth.

Yr oedd hynny'n gyfyngiad aruthrol. Golygai y gallem gael rhan o ardal fel Caerdydd am fod yn ddi 320,000 o bobl, ond na allein gael rhan o Wrecsam neu Fro Morgannwg, er inni lwyddo i gynnwys tair ward ar ochr orllewinol Bro Morgannwg. Golygai y byddai un ai'r cyfan o Fro Morgannwg, heblaw am y tair ward honno, wedi ei gynnwys neu ei adael allan, a'r un modd yn achos Casnewydd a Wrecsam. Pe bai'r cyfan o Wrecsam wedi ei gynnwys, byddai gweddill gogledd-ddwyrain Cymru wedi'i adael allan. Dyna pam y gellid cynnwys yr ardaloedd sydd agosaf at ardaloedd Amcan 1 y Rhyl a Glannau Mersi am eu bod yn gyffiniol. Mae gan Mike a mi olwg wahanol ar Frychdyn. Efallai fod fy nghof i neu ei gof

him a letter of apology if Broughton was in the previous map and I am wrong. I did not think Broughton was, but I could be wrong.

ef yn methu. Byddaf yn ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad ato os wyf yn anghywir a bod Brychdyn yn y map blaenorol. Nid oeddwn yn credu bod Brychdyn ynddo, ond gallwn fod yn anghywir.

**David Melding:** The truth is that Barry is out and Lisvane is in this new map. People will find this difficult to understand. It is not fair for the administration to hide behind bureaucrats in Brussels. The Council of Ministers dictates policy at the European level and that is administered by bureaucrats. The Government should have fought against this pernicious policy to argue that we must have large continuous areas, as you have indicated. This has destroyed some of the prospects that areas like Barry could have reasonably hoped to have. People in Barry will be embittered. Why can we not have an assisted areas policy that is based on the areas that need to be assisted?

**David Melding:** Y gwir yw bod y Barri allan a bod Llys-faen wedi ei gynnwys yn y map newydd hwn. Bydd pobl yn ei chael yn anodd deall hynny. Nid yw'n deg i'r weinyddiaeth guddio y tu ôl i fiwrocratiaid ym Mrwsel. Cyngor y Gweinidogion sydd yn gosod polisi ar y lefel Ewropeaidd a gweinyddir hynny gan fiwrocratiaid. Dylai'r Llywodraeth fod wedi ymladd yn erbyn y polisi niweidiol hwn er mwyn dadlau bod rhaid inni gael ardaloedd helaeth di-fwlch, fel y nodasoch. Mae hyn wedi dinistrio rhai o'r rhagolygon y gallasai ardaloedd fel y Barri fod wedi gobeithio'n rhesymol amdanynt. Bydd pobl yn y Barri wedi chwerwi. Pam na allwn gael polisi ardaloedd a gynorthwyir sydd yn seiliedig ar yr ardaloedd y mae angen eu cynorthwyo?

**The First Secretary:** The competition directorate of the European Community is in charge of assisted areas proposals and it wanted a big cut. The cut was well over a quarter of the previous assisted areas. The British Government was legally advised that the competition directorate was on firm ground in ruling out the methodology that had been used in last summer's proposals. After months of debate, the UK Government decided that it did not want to be taken to court on the matter. It also decided that it could not afford the delay that would be caused by the protracted legal dispute that David would have liked to have undertaken in defence of an alternative methodology, once it was clear that it was going to be rejected.

David asked whether an assisted areas policy could be based on areas that need to be assisted. He also asked if Lisvane is more prosperous than Barry, and the answer is yes. Peculiarly, the Lisvane ward adjoins the Caerphilly area and can therefore be included legitimately on the grounds of contiguity. The same applies to the three western wards in the Vale of Glamorgan, which can be attached to the Bridgend area on the grounds of contiguity and still be within the total

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarwyddiaeth cystadleuaeth y Gymuned Ewropeaidd sydd yn gyfrifol am gynigion ardaloedd a gynorthwyir ac yr oedd am gael toriad mawr. Yr oedd y toriad ymhell dros chwarter o'r rhanbarthau cymorth blaenorol. Rhoddyd cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Prydain i'r perwyl bod y gyfarwyddiaeth cystadleuaeth ar dir cadarn wrth wrthod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yng nghynigion yr haf diwethaf. Ar ôl misoedd o drafod, penderfynodd Llywodraeth y DU na ddymunai orfod mynd i gyfraith ar y mater. Penderfynodd hefyd na allai fforddio'r oedi a achosid gan y ddadl gyfreithiol hirfaith y byddai David wedi hoffi ymgymryd â hi er mwyn amddiffyn methodoleg arall, wedi iddi ddod yn amlwg y câi ei gwrtihod.

Gofynnodd David a ellid seilio polisi ardaloedd a gynorthwyir ar ardaloedd y mae angen eu cynorthwyo. Gofynnodd hefyd a yw Llys-faen yn fwy ffyniannus na'r Barri, a'r ateb yw ydyw. Yn rhyfedd, mae ward Llys-faen yn cydffiniol ag ardal Caerffili ac felly gellir ei gynnwys yn gyflawn ar sail cyffinioldeb. Mae hynny'n wir hefyd am y tair ward orllewinol ym Mro Morgannwg, y gellir eu cyplysu ag ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar sail cyffinioldeb a dal i fod oddi mewn i'r

population cut we were offered. You could not do that for Barry. There is no contiguity, because Barry is not adjoined to any other full development area like Bridgend or Caerphilly.

2:50 p.m.

You could say that that is the good fortune of Lisvane and the western wards around Cowbridge and Llandough, but that is the way the system works. David is surely not saying that we should miss an opportunity of attaching the western edge of the Vale of Glamorgan, or the northern tip of Cardiff to the adjoining full development areas in Caerphilly and Bridgend, because we could not include Barry because of any contiguity. It would have been a lost opportunity.

**Jonathan Morgan:** This seems rather haphazard. I want a point of clarification. In the list we have seen, you mentioned the ward of Lisvane and St Mellons. There is no such ward as Lisvane and St Mellons in Cardiff. There is the ward of Lisvane, which is represented by one councillor, the ward of Pontprennau and Old St Mellons, which is represented by two councillors, and the separate ward of St Mellons. Can you clarify which part of north-east Cardiff is covered?

**The First Secretary:** I cannot, but I will write to him. As far as I remember when I saw the map, it was the two wards that adjoin the Caerphilly local authority area. I think that is probably Lisvane and Pontprennau.

**Owen John Thomas:** A wnewch chi gadarnhau nad oes ward o'r enw Llaneirwg yn Nghaerdydd, ond bod ward o'r enw Trowbridge?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn siŵr. Nid wyf eisiau ymyrryd yn enwau'r wardiau yng Nghaerdydd.

toriad ar gyfanswm y boblogaeth a gynigiwyd i ni. Ni allech wneud hynny yn achos y Barri. Nid oes cyffinoldeb, oherwydd nid yw'r Barri'n cydffiniio ag unrhyw ardal ddatblygu lawn arall fel Penybont ar Ogwr neu Gaerffili.

Gallech ddweud mai lwc Llys-faen a'r wardiau gorllewinol o gwmpas y Bont-faen a Llandochau'r Bont-faen yw hynny, ond felly y mae'r system yn gweithio. Siawns nad yw David yn dweud y dylem fethu cyfle i i gyplysu ymyl gorllewinol Bro Morgannwg neu ben gogleddol Caerdydd â'r ardaloedd datblygu llawn cyfagos yng Nghaerffili a Phen-y-bont ar Ogwr, am na allem gynnwys y Barri oherwydd diffyg cyffinoldeb. Byddai'n gyfle a gollwyd.

**Jonathan Morgan:** Mae hyn yn ymddangos pe bai wedi ei wneud ar hap braidd. Yr wyf am gael pwyt o eglurhad. Yn y rhestr a welsom, soniasoch am ward Llys-faen a Llaneirwg. Nid oes y fath ward â Llys-faen a Llaneirwg yng Nghaerdydd. Mae ward Llysfaen, a gynrychiolir gan un cyngphonydd, ward Pontprennau ac Old St Mellons, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, a ward Llaneirwg ar wahân. A allwch egluro pa ran o ogledd-ddwyrain Caerdydd sydd wedi ei chynnwys?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni allaf, ond byddaf yn ysgrifennu ato. Hyd y cofiaf pan welais y map, y ddwy ward sydd yn cydffiniio ag ardal awdurdod lleol Caerffili oeddent. Credaf mai Llys-faen a Phontprennau yw'r rheini yn ôl pob tebyg.

**Owen John Thomas:** Will you confirm that there is no ward called St Mellons in Cardiff, but that there is a ward called Trowbridge?

**The First Secretary:** I am not sure. I do not want to interfere in the names of wards in Cardiff.

### Datganiad ar Gyllid Amaethyddol Statement on Agricultural Funding

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** On 30 March, the UK Government announced

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Ar 30 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU

additional funding to help the farming industry. I am now in a position to make a statement about the financial implications for the Assembly and for farmers in Wales.

The financial measures fall into two broad categories. First, there are measures that are within the Assembly's sphere of discretion. The UK Government has announced an extra £60 million in 2000-01 to help hill farmers. Of this, £50 million will be added to the reformed allowances for less favoured areas, which will be paid in spring 2001. The remaining £10 million will be used to fund measures, which will help hill farmers to improve business performance. The UK Government has based the allocation to Wales on the historical Welsh share of the hill livestock compensatory allowance expenditure. This means that the Assembly has been allocated £14.7 million to help hill farmers in 2000-01. Of this, £12.25 million will be added to the allowances for Tir Mynydd, the reformed Welsh HLCA scheme, for payment in Spring 2001. Discussions will be held with the farming unions and the Agriculture and Rural Development Committee about how the remaining £2.45 million can be used to help hill farmers improve their businesses within the framework of the rural development plan and the Objective 1 single programming document. This work is crucial if we are to help hill farmers raise incomes and become less reliant on subsidy in the longer term.

In addition, the UK Government has announced an extra £2 million in 2000-01, to be shared between Scotland, Wales and Northern Ireland, for a range of work to help farming businesses to adapt. It has now been agreed that £609,000 will be allocated to the Assembly. Christine Gwyther will be holding discussions with the farming unions and the Agriculture and Rural Development Committee on how best to use this money, within the framework of the rural development plan and the Objective 1 SPD.

The Ministry of Agriculture, Fisheries and Food announced on 30 March that, together

gyllid ychwanegol i helpu'r diwydiant ffermio. Yr wyf bellach mewn sefyllfa i wneud datganiad am y goblygiadau ariannol i'r Cynulliad ac i ffermwyr yng Nghymru.

Bydd y busnes ddydd Mawrth 9 Mai fel y'i hadroddwyd yr wythnos diwethaf. Ar 10 Mai, gohiriwyd y cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Taliadau Blaenoriaeth) 2000 hyd yn ddiweddarach yn y sesiwn. Yn ei le bydd cynnig i gymeradwyo diwygiad i Reol Sefydlog Rhif 22.12. Mae'r busnes ddydd Mawrth 16 Mai fel y'i hadroddais yr wythnos diwethaf. Fel yr adroddais i'r Pwyllgor Busnes y bore yma, ddydd Mercher 17 Mai, yn lle'r ddadl ar gynhyrchu ffilmiau yng Nghymru rhoddwyd dadl ar adeilad newydd y Cynulliad. Gohirir y ddadl ar gynhyrchu ffilmiau yng Nghymru

hyd Fefhefin.

On Tuesday 23 May there will be a debate on a children's commissioner and on Wednesday 24 May business will include a debate on the Objective 2 and Objective 3 programmes. Arrangements will be made to post a copy of my statement to both the intranet and the internet later today.

**Nick Bourne:** I object to the business statement.

**The Presiding Officer:** Are there 10 objections to the business statement?

I see that there are. Therefore, under Standing Order No. 5.4, I call the Business Secretary to propose the business statement. I can allow one Member from each group to respond before the Business Secretary replies and I call a vote.

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly adopts the business statement.*

**Nick Bourne:** First, I want to refresh the memory of the Assembly as to what was decided during the Welsh Conservative minority party debate on 29 March. We debated capping Welsh councillors' allowances and, as the Business Secretary said, it related particularly, although not exclusively, to Cardiff city councillors. That debate was followed by a vote and 27 Members voted in favour of the motion, while 20 Members from the Labour group abstained. Nobody voted against it.

During the course of my closing speech, I asked the Secretary for Local Government and Housing to indicate what he proposed to do and he said that he would bring forward proposals for urgent action within two weeks. Those proposals have not been brought before the Assembly and there is no indication of what they might be. We feel that this issue is being kicked into the long grass. There is a danger that the Labour Party is trying to get out of a fix by leaving it until the last session before the Easter recess to make a statement, when there will no longer be an opportunity to vote against the business statement.

Ddydd Mawrth 23 Mai bydd dadl ar gomisiynydd plant a dydd Mercher 24 Mai bydd y busnes yn cynnwys dadl ar y rhagleni Amcan 2 ac Amcan 3. Gwneir trefniadau i osod copi o'm datganiad ar y fewnrwyd ac ar y rhyngrwyd yn ddiweddarach heddiw.

**Nick Bourne:** Gwrthwynebaf y datganiad busnes.

**Y Llywydd:** A oes 10 gwrthwynebiad i'r datganiad busnes?

Gwelaf fod. Felly, o dan Reol Sefydlog Rhif 5.4, galwaf ar y Trefnydd i gynnig y datganiad busnes. Gallaf ganiatáu i un Aelod o bob grŵp ymateb cyn y bydd y Trefnydd yn ateb ac y galwaf am bleidlais.

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad yn derbyn y datganiad busnes.*

**Nick Bourne:** Yn gyntaf, dymunaf atgoffa'r Cynulliad o'r hyn a benderfynwyd yn ystod dadl plaid leiafrifol Ceidwadwyr Cymru ar 29 Mawrth. Trafodasom gapio lwfansau cynghorwyr yng Nghymru ac, fel y dywedodd y Trefnydd, yr oedd yn ymneud yn benodol, er nad yn gyfan gwbl, â chyngorwyr dinas Caerdydd. Ar ôl y ddadl honno bu pleidlais a phleidleisiodd 27 Aelod o blaid y cynnig, tra ymataliodd 20 Aelod o'r grŵp Llafur. Ni phleidleisiodd neb yn ei erbyn.

Yn ystod fy arraith derfynol, gofynnais i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai nodi'r hyn y bwriadai ei wneud a dywedodd y cyflwynai gynigion ar gyfer camau brys o fewn pythefnos. Ni roddwyd y cynigion hynny gerbron y Cynulliad ac nid oes awgrym o'r hyn y gallent fod. Teimlwn fod y mater hwn yn cael ei fwrw o'r neilltu. Mae perygl bod y Blaid Lafur yn ceisio dianc o helbul drwy beidio â gwneud datganiad tan y sesiwn olaf cyn toriad y Pasg, pan na fydd cyfle mwyach i bleidleisio yn erbyn y datganiad busnes.

Unless Peter Law proposes to timetable this legislation tomorrow, which may be the case—he will no doubt have the opportunity of setting that out—we feel that it is appropriate to vote against this. There are strong feelings about this and there is no indication of any climb down by Russell Goodway or members of the Labour cabinet in Cardiff. There is no indication of heeding public opinion or bringing forward legislation. It was always going to be thus. It was obvious from the start that Russell Goodway would not listen to that debate.

The Assembly has spoken clearly. Even the Labour group did not vote against our minority motion. Is it not time that this Assembly did something for Wales? This is the wish of the people of Wales and this Assembly. I urge Members to vote against the business statement.

**Ieuan Wyn Jones:** There is general concern about this issue within this Chamber and outside. The concern centres on the fact that if a statement is made today—and of course Members have no details about the content of that statement—and Members consider its contents unsatisfactory in relation to decisions taken, it will be impossible for them to make their views known for another month, because of the recess. It is incumbent upon the administration to clarify what it intends to do in the light of Russell Goodway's response being unacceptable to the administration and the Assembly. I urge that a clear statement be given today about the Government's intentions. Our group will vote against the business statement unless a clear statement is given.

**Jenny Randerson:** I preface my comments by declaring my usual interest as a member of Cardiff council. I endorse what has been said. I am disappointed that Andrew Davies's statement this afternoon did not contain assurances about what would be included in tomorrow's statement. I understand that the council was given two weeks to respond, but I have the benefit of having sat through a council meeting last Thursday in which every indication was given to the public that there would be no question of listening to the

Oni bai fod Peter Law yn bwriadu amserlennu'r ddeddfwriaeth hon yfory, a gallai hynny fod yn wir—mae'n sier y caiff gyfle i nodi hynny—teimlwn mai priodol yw pleidleisio yn erbyn hyn. Mae teimladau cryf am hyn ac nid oes awgrym o gyfaddawd gan Russell Goodway neu aelodau'r cabinet Llafur yng Nghaerdydd. Nid oes arwydd o wrandawiad i'r farn gyhoeddus neu o gyflwyno deddfwriaeth. Yr oedd yn anorffod mai fel hyn y byddai. Yr oedd yn amlwg o'r dechrau na wrandawai Russell Goodway ar y ddadl honno.

Mae'r Cynulliad wedi siarad yn eglur. Ni phleidleisiodd y grŵp Llafur hyd yn oed yn erbyn ein cynnig lleiafrifol. Onid yw'n bryd i'r Cynulliad hwn wneud rhywbeth dros Gymru? Dyma ddymuniad pobl Cymru a'r Cynulliad hwn. Anogaf yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y datganiad busnes.

**Ieuan Wyn Jones:** Mae pryder cyffredinol ynghylch y mater hwn oddi mewn i'r Siambr hon a'r tu allan. Mae'r pryder hwnnw'n ymwneud yn bennaf â'r ffaith, os gwneir datganiad heddiw—ac wrth gwrs nid oes gan yr Aelodau unrhyw fanylion am gynnwys y datganiad hwnnw—a bod Aelodau'n ystyried bod ei gynnwys yn anfoddhaol mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaethpwyd, ni fydd modd iddynt roi gwybod am eu barn am fis arall, oherwydd y toriad. Mae dyletswydd ar y weinyddiaeth i egluro'r hyn y bwriad a ei wneud yng ngoleuni'r ffaith fod ymateb Russell Goodway yn annerbyniol i'r weinyddiaeth ac i'r Cynulliad. Pwysaf am roi datganiad pendant heddiw ynghylch bwriadau'r Llywodraeth. Bydd ein grŵp ni'n pleidleisio yn erbyn y Datganiad Busnes oni roddir datganiad pendant.

**Jenny Randerson:** Cyn fy sylwadau datganaf y buddiant arferol sydd gennyf fel aelod o gyngor Caerdydd. Ategaf yr hyn a ddywedwyd. Yr wyf yn siomedig nad oedd datganiad Andrew Davies y prynhawn yma'n cynnwys sicrwydd ynghylch yr hyn a gâi ei gynnwys yn y datganiad yfory. Deallaf fod y cyngor wedi cael pythefnos i ymateb, ond mae gennyf y fantais o fod wedi eistedd drwy gyfarfod o'r cyngor ddydd Iau diwethaf lle y rhoddwyd pob arwydd i'r cyhoedd na fyddai unrhyw sôn am wrando ar y Cynulliad.

Assembly.

I realise that there is a big gap between the rhetoric and the reality but we need an assurance this afternoon that there will be a timetable introduced tomorrow and that the Assembly's wishes, expressed in a vote, will be adhered to.

**The Presiding Officer:** I call a Member of the Labour Group who is the Secretary for Local Government and Housing.

**Peter Law:** We must be responsible. I understand Assembly Members' concern. I respect and note the decision made on 29 March. On that day I wrote to Cardiff City and County Council and I gave it 14 days to respond, which is a reasonable time for a local authority to call meetings and discuss a situation. Nothing should be pushed into the long grass. The Government of Wales and the National Assembly for Wales have to be seen to act in a responsible and appropriate manner. We may think that some people outside act in an impetuous way and shoot from the hip. We do not have to emulate that and I hope that Members agree that my course of action is right. The 14 days I gave is up tomorrow. I have promised, and the Business Secretary has said today, that I will be making a definitive statement tomorrow on the action that I recommend should be taken by the Assembly regarding Cardiff council and its allowances. That is where the difficulty lies. No one has ignored anything. I assure Assembly Members that I will be here tomorrow afternoon to make that statement before the recess and I will inform you of the action that I will take. It would be wrong and inappropriate for me to say anything further today because I have given Cardiff council until tomorrow to respond in writing to tell me what action it intends to take. If it does not take the action that I have suggested, I will take that action, with the Assembly's support, for it.

**The Business Secretary:** As I reported to the Business Committee this morning, in light of the discussion held on 29 March, and as Peter Law has already outlined, this administration has taken this issue extremely seriously. We gave tomorrow as a deadline to the local authority and we thought it appropriate to

Sylweddolaf fod bwlch mawr rhwng y rhethreg a'r realiti ond mae arnom angen sicrwydd y prynhawn yma y caiff amserlen ei chyflwyno yfory ac y glynir wrth ddymuniadau'r Cynulliad, a fynegwyd mewn pleidlais.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Aelod o'r Grŵp Llafur, sef yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai.

**Peter Law:** Rhaid inni fod yn gyfrifol. Deallaf bryder Aelodau'r Cynulliad. Parchaf a nodaf y penderfyniad a wnaethpwyd ar 29 Mawrth. Y diwrnod hwnnw ysgrifennais at Gyngor Dinas a Sir Caerdydd a rhoddais 14 diwrnod iddo ateb, sydd yn gyfnod rhesymol i awdurdod lleol alw cyfarfodydd a thrafod sefyllfa. Ni ddylid bwrw dim o'r neilltu. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gael eu hystyried yn rhai sydd yn gweithredu'n gyfrifol ac yn briodol. Gallem feddwl bod rhai pobl y tu allan yn gweithredu'n fyrbwyll ac yn ddibaratoad. Nid oes rhaid inni efelychu hynny a hyderaf fod yr Aelodau'n cytuno bod fy null o weithredu'n gywir. Bydd y 14 diwrnod a roddais ar ben yfory. Addewais, a dywedodd y Trefnydd heddiw, y byddaf yn gwneud datganiad pendant yfory ar y camau yr argymhellaf y dylai'r Cynulliad eu cymryd mewn perthynas â chyngor Caerdydd a'i lwfansau. Dyna lle y mae'r anhawster. Nid oes neb wedi anwybyddu dim. Rhoddaf sicrwydd i Aelodau'r Cynulliad y byddaf yma brynhawn yfory i wneud y datganiad hwnnw cyn y toriad ac y rhoddaf wybod i chi am y camau a gymeraf. Anghywir ac amhriodol fyddai imi ddweud dim pellach heddiw oherwydd rhoddais tan yfory i gyngor Caerdydd ymateb mewn ysgrifen gan ddweud wrthyf pa gamau y bwriad eu cymryd. Os na chymer y camau a awgrymais, cymeraf finnau'r camau hynny, gyda chefnogaeth y Cynulliad, ar ei ran.

**Y Trefnydd:** Fel yr adroddais i'r Pwyllgor Busnes y bore yma, yng ngoleuni'r drafodaeth a gynhalwyd ar 29 Mawrth, ac fel yr amlinelloedd Peter Law eisoedd, mae'r weinyddiaeth hon wedi cymryd y mater hwn yn gwbl o ddifrif. Rhoesom yfory'n ddyddiad olaf i'r awdurdod lleol a chredem mai priodol

table the statement after the deadline had passed. Peter has made a commitment, which is in the Record of Proceedings, of what action he will take if there is not an appropriate response on behalf of the leader of Cardiff council. Our position remains the same.

**The Presiding Officer:** Under Standing Order No. 5.4 I am obliged to put the proposition that the business statement be adopted to a vote.

*Cynnig: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 25.  
Motion: For 24, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Michael, Alun  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sinclair, Karen

*Motion rejected.*

**The Presiding Officer:** The motion that the business statement be adopted has been rejected. Under Standing Order No. 5.4 I am obliged to request the Business Secretary to bring forward a revised statement as soon as possible.

**The Business Secretary:** In view of today's timetable I will bring forward a revised statement tomorrow.

oedd cyflwyno'r datganiad ar ôl y terfyn amser. Gwnaeth Peter ymrwymiad, sydd yng Nghofnod y Trafodion, ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd os nad oes ymateb priodol ar ran arweinydd cyngor Caerdydd. Mae ein safbwyt yr un fath o hyd.

**Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 5.4 rhaid imi roi'r cynnig dros dderbyn y datganiad busnes i bleidlais.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
German, Michael  
Graham, William  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Gwrthodwyd y cynnig.*

**Y Llywydd:** Mae'r cynnig dros dderbyn y datganiad busnes wedi ei wrthod. O dan Reol Sefydlog Rhif 5.4 rhaid imi ofyn i'r Trefnydd roi datganiad wedi'i ddiwygio gerbron cyn gynted ag y bo modd.

**Y Trefnydd:** Yng ngolwg yr amserlen heddiw rhoddaf ddatganiad wedi'i ddiwygio gerbron yfory.

3:30 p.m.

## Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol Minority Party Debate: The Conservative Party

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Rhodri Glyn Thomas and amendment 3 in the name of Mick Bates.

**Peter Rogers:** I propose that

*this Assembly deplores the failure of the Labour administration to protect the rural economy and services in rural Wales.*

I am proud to be asked to lead this debate. As a farmer from north Wales, I have seen at first hand the worsening state of rural communities. However, I take no pleasure in having to participate in this debate, as nothing would give me greater pleasure than to congratulate the administration on its success at giving hope and encouragement to rural Wales. Sadly, I can neither compliment nor congratulate.

Unfortunately, I am here again to represent the neglected views of the beleaguered group of men and women from rural Wales. This crisis is the worst in living memory. The backbone of the rural economy is the family farm, and this has been ripped apart. Today, dairy farmers are paid the same price for milk as they were in 1986. No wonder two in every five farmers are being treated by a doctor and taking tablets. Their marriages are strained and they have no future.

I know that when I mention the miners and the steelworkers, Brian and some of the others will jump up and down. These dairy farmers, particularly the tenant farmers and also pig farmers, do not have any route for financial assistance. They are self-employed. If they do not have children at school—the average age of farmers is 57—they have no unemployment pay, no family credit or support of any kind. They even have to pay the doctor for their tablets.

**Brian Gibbons:** Does Peter agree with the written reply that I received from the Secretary for Agriculture and Rural Development that the level of direct and

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Rhodri Glyn Thomas a gwelliant 3 yn enw Mick Bates.

**Peter Rogers:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad hwn yn gresynu at fethiant y weinyddiaeth Lafur i amddiffyn yr economi wledig a gwasanaethau yn y Gymru wledig.*

Yr wyf yn falch imi gael fy ngwahodd i arwain y ddadl hon. Fel ffermwyr o ogledd Cymru, gwelais gymunedau gwledig yn dirywio â'm llygaid fy hun. Fodd bynnag, nid yw'n bleser o gwbl imi orfod cymryd rhan yn y ddadl hon, gan na roddai dim fwy o bleser i mi na llonyfarch y weinyddiaeth ar ei llwyddiant wrth roi gobaith ac anogaeth i'r Gymru wledig. Gwaetha'r modd, ni allaf ganmol a llonyfarch.

Yn anffodus, yr wyf yma eto i gynrychioli barn anghofiedig grŵp o ddynion a menywod o gefn gwlod Cymru. Yr argyfwng hwn yw'r gwaethaf o fewn cof. Asgwrn cefn yr economi wledig yw'r fferm deuluol, a rhwygwyd hon yn ddarnau. Heddiw, telir yr un pris i ffermwyr llaeth am laeth ag yn 1986. Nid oes ryfedd bod dau ym mhob pump o ffermwyr dan law meddyg ac yn cymryd tabledi. Mae eu priodasau dan bwysau ac nid oes ganddynt ddyfodol.

Gwn, pan soniaf am y glowyr a'r gweithwyr dur, y bydd Brian a rhai o'r lleill yn neidio i fyny ac i lawr. Nid oes gan y ffermwyr llaeth hyn, yn enwedig y ffermwyr denantiaid a hefyd ffermwyr moch, unrhyw ffordd o gael cymorth ariannol. Maent yn hunangflogedig. Os nad oes ganddynt blant yn yr ysgol—oed cyfartalog ffermwyr yw 57—ni chânt dâl diweithdra, credyd teulu neu gymorth o unrhyw fath. Rhaid iddynt dalu'r meddyg am eu tabledi hyd yn oed.

**Brian Gibbons:** A yw Peter yn cytuno â'r ateb ysgrifenedig a dderbynais oddi wrth yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fod lefel y cymorth uniongyrchol ac

indirect support from the public purse to individual farms is over £32,000?

**Peter Rogers:** Brian must remember that we are in Europe. British farmers insist that they should receive the same support as European farmers. The majority of that money is from Europe and we have rules and regulations against us. All they ask is to be able to trade and run their business effectively.

**Elin Jones:** Does Peter Rogers believe that one of the main reasons for the current crisis in agriculture and tourism in rural areas is the strength of the pound and, and that it would be alleviated considerably if Wales and the UK were members of the European single currency?

**Peter Rogers:** Entering into the European single currency at the moment would be devastating. Nobody thought that the crisis would sink to the levels it has. We would give away far too much by joining. There are many other things that we can do with rules.

A dairy farmer's wife came to see me last week to see how she could get help for her husband, who has a dairy farm with 100 cows. She was working part time at a local school. She had been told at the local benefit office that the only way that she could get help would be if her husband went to see the doctor to get a sick note for depression so that he could claim benefit. Are you surprised that this occurs when the milk price has dropped from 26p to 15p per litre? Milk is almost cheaper than bottled water.

The strength of the pound will destroy the milk industry and, in turn, the rural economy. Why did the administration discontinue the calf processing aid scheme in July when it was budgeted to run until December? Through the summer months, we watched the mass slaughter of calves. Christine Gwyther promised that we would reintroduce the scheme on 1 October, but when she went to Brussels on 3 October this was refused. A little research would have saved the airfare.

This Labour Government is guilty of complete incompetence over its support for the farmers. Note this headline from the

anuniongyrchol o'r pwrs cyhoeddus i ffermydd unigol dros £32,000?

**Peter Rogers:** Rhaid i Brian gofio ein bod yn Ewrop. Mae ffermwyr Prydain yn mynnu y dylent dderbyn yr un cymorth â ffermwyr yn Ewrop. Daw'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw o Ewrop ac mae gennym reolau a rheoliadau yn ein herbyn. Y cwbl a ofynnant yw cael masnachu a rhedeg eu busnes yn effeithiol.

**Elin Jones:** A yw Peter Rogers o'r farn mai un o'r prif resymau dros yr argyfwng presennol mewn amaethyddiaeth a thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig yw cryfder y bunt, ac y cai ei leddfu'n sylweddol pe bai Cymru a'r DU yn aelodau o'r arian sengl Ewropeaidd?

**Peter Rogers:** Byddai ymuno â'r arian sengl Ewropeaidd ar hyn o bryd yn drychnebus. Ni chredai neb y byddai'r argyfwng yn gwaethyg i'r graddau a wnaeth. Byddem yn ildio llawer gormod drwy ymuno. Mae llawer o bethau eraill y gallwn eu gwneud â rheolau.

Daeth gwraig ffermwyr llaeth ataf i'm gweld yr wythnos diwethaf i weld sut y gallai gael cymorth i'w gŵr, sydd â fferm laeth ag arni 100 o wartheg. Yr oedd yn gweithio'n rhamamser mewn ysgol leol. Dywedwyd wrthi yn y swyddfa fudd-daliadau leol mai'r unig ffordd y gallai gael cymorth fyddai i'w gŵr fynd i weld y meddyg a chael nodyn salwch am iselder ysbryd fel y gallai hawlio budd-dâl. A ydych yn synnu bod hyn yn digwydd pan yw pris llaeth wedi disgyn o 26c i 15c y litr? Mae llaeth bron â bod yn rhatach na dŵr potel.

Bydd cryfder y bunt yn dinistrio'r diwydiant llaeth ac, yn ei dro, yr economi wledig. Pam y terfynodd y weinyddiaeth y cynllun cymorth prosesu lloí yng Ngorffennaf a hwnnw wedi ei gyllido i redeg hyd Ragfyr? Drwy fisoeedd yr haf, gwelsom laddfa gyffredinol o loi. Addawodd Christine Gwyther y byddem yn ailygflwyno'r cynllun ar 1 Hydref, ond pan aeth i Frwsel ar 3 Hydref gwrthodwyd hyn. Byddai ychydig o ymchwil wedi arbed cost y tocyn awyren.

Mae'r Llywodraeth Lafur hon yn euog o fwnglereiddiwch llwyr ynghylch ei chymorth i'r ffermwyr. Sylwch ar y pennawd hwn yn y

*Farmers Guardian* last week:

'We do not give a damn where beef comes from.'

These are the words of Shawn Baker who is the head of production for the Midland Meat Packers, which supply the main supermarkets. He says that animal welfare is not a high priority with consumers, who buy mainly on price. Price is the main consideration. So much for food standards, animal welfare and traceability. Pig farmers adhered to welfare standards and abolished pig stalls and tethers, which made them totally uncompetitive. Cheap food ruled the day and pig farmers were left to go to the wall. The labelling of meat products deliberately misinforms the public by suggesting that food has been produced in Britain when it is only processed in Britain. No imported meat has been produced under the same stringent conditions and checks as British meat. That is why it is so cheap. Welsh farmers are fighting for a market share with one hand tied behind their backs. Their livelihoods are on the line. Look what happened to the Welsh ewe trade. The Welsh mountain farmer depended on the export trade, but regulations made us remove the spinal cord. Our total trade for mutton with France was lost, as they only buy whole carcasses. This decimated the Welsh sheep industry. We are the only country in the European Commission not to claim agri-monetary compensation in full.

**Karen Sinclair:** How much agri-money did the Conservative Government ever draw down?

**Peter Rogers:** I am talking about a crisis in agriculture, to which money will not make much difference. However, when you are running at the current strength of the pound, it is totally unfair. The money is there. We have never faced a crisis of this level before. This administration has knocked the stuffing out of a once-proud industry. But that is not enough. Farmers must now contend with an uncontrollable—

**Alun Pugh:** This is supposed to be a debate on the rural economy, not simply on

*Farmers Guardian* yr wythnos diwethaf:

'*We do not give a damn where beef comes from.*'

Dyna eiriau Shawn Baker sydd yn bennaeth cynhyrchu i Midland Meat Packers, sydd yn cyflenwi'r prif archfarchnadoedd. Dywed nad yw lles anifeiliaid yn flaenoriaeth uchel gan ddefnyddwyr, sydd yn prynu ar sail y pris yn bennaf. Pris yw'r brif ystyriaeth. Naw wfft i safonau bwyd, lles anifeiliaid ac olrheinadwyedd. Cadwodd ffermwyr moch at safonau lles a dileu stalau moch a thenynnau, gan eu gwneud yn gwbl anghystadleuol. Bwyd rhad oedd biau hi a gadawyd i ffermwyr moch fynd i'r wal. Mae labelu cynhyrchion cig yn camarwain y cyhoedd yn fwriadol drwy awgrymu bod bwyd wedi ei gynhyrchu ym Mhrydain a hwnnw ond wedi ei brosesu ym Mhrydain. Ni chynhyrchwyd dim o'r cig a fewnforir o dan yr un amodau a gwiriadau caeth â chig Prydain. Dyna pam y mae mor rhad. Mae ffermwyr Cymru'n ymladd am ran o'r farchnad ag un llaw wedi ei chlymu y tu ôl i'w cefnau. Mae eu bywoliaeth yn y fantol. Edrychwch ar yr hyn a ddigwyddodd i'r fasnach mamogiaid. Dibynnai ffermwyr mynydd Cymru ar y fasnach allforion, ond yr oedd rheoliadau yn ein gorfodi i dynnu llinyn yr asgwrn cefn. Collwyd y cwbl o'n masnach cig dafad â Ffrainc, gan nad ydynt ond yn prynu carcasau cyfan. Chwalodd hynny ddiwydiant defaid Cymru. Ni yw'r unig wlad yn y Comisiwn Ewropeaidd na hawliodd iawndal amaeth-arianyddol yn llawn.

**Karen Sinclair:** Faint o arian amaethyddol a gododd y Llywodraeth Geidwadol erioed?

**Peter Rogers:** Yr wyf yn sôn am argyfwng mewn amaethyddiaeth, na wna arian lawer o wahaniaeth iddo. Fodd bynnag, pan ydych yn rhedeg ar gryfder presennol y bunt, mae'n gwbl annheg. Mae'r arian yno. Nid ydym erioed wedi wynebu argyfwng o'r maint hwn. Mae'r weinyddiaeth hon wedi colbio diwydiant a oedd gynt yn fawr ei fri. Ond nid yw hynny'n ddigon. Rhaid i ffermwyr ymgodymu bellach—

**Alun Pugh:** Dadl ar yr economi wledig yw hon i fod, nid ar amaethyddiaeth yn unig, er

agriculture, although I accept that agriculture is a vital part of the rural economy. People in rural areas earn much less than people who live in cities. Therefore, why did your party bitterly oppose the national minimum wage?

**Peter Rogers:** One of the problems that we had was the money that was being earned in those areas in the tourist trade. I cannot see that the national minimum wage has made a difference in rural areas in Wales. There is absolute devastation everywhere.

Farmers will have to contend with an uncontrollable amount of people who will have the legal right to roam over our properties. You know that the solution is voluntary access but this administration is hell bent on confrontation. You do not understand the countryside and you do not want to. You have ruined the rural economy by not listening. The consultation document 'Greater Protection and Better Management of Common Land in England and Wales' not only covers the possible changes to registration procedures, it also takes the views of the graziers of common land. This consultation was sent out on 21 March, just in time to clash with lambing. It finishes on 10 April. Nobody will have the opportunity to give proper views on it. The economy and services in rural Wales are dependent on a living and thriving countryside, which depends totally on sustainable agriculture, which is being destroyed.

Finally, I will take you back to 1957, long before you were born, Glyn. The Treaty of Rome article 39.1(b) states that one of the objectives of the Common Agricultural Policy is:

'to ensure a fair standard of living for the agricultural community, in particular by increasing the individual earnings of persons engaged in agriculture.'

Almost half a century later this Labour administration has destroyed this ideal. When will Welsh farmers have a fair standard of living?

fy mod yn derbyn bod amaethyddiaeth yn rhan holl bwysig o'r economi wledig. Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn ennill llawer llai na phobl sydd yn byw mewn dinasoedd. Felly, pam yr oedd eich plaid chi mor chwyrn yn erbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol?

**Peter Rogers:** Un o'r problemau a oedd gennym oedd yr arian a enillid yn yr ardaloedd hynny yn y fasnach ymwelwyr. Ni allaf weld bod yr isafswm cyflog cenedlaethol wedi gwneud gwahaniaeth mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae distryw llwyr ym mhob man.

Bydd yn rhaid i ffermwyr ymgodysu â nifer afreoladwy o bobl a gaiff hawl gyfreithiol i grwydro dros ein tiroedd. Gwyddoch mai'r ateb yw mynediad gwirfoddol ond mae'r weinyddiaeth hon yn benderfynol o gael gwrthdarro. Ni ddeallwch gefn gwlad ac ni ddymunwch wneud. Yr ydych wedi difetha'r economi wledig drwy beidio â gwrandio. Mae'r ddogfen ymgynghorol 'Gwarchod a Rheoli Tir Comin yn Well yng Nghymru' yn ymdrin nid yn unig â'r newidiadau posibl mewn gweithdrefnau cofrestru, ond mae hefyd yn ystyried barn ffermwyr defaid ar dir comin. Fe'i dosbarthwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 21 Mawrth, ar yr union adeg i wrthdarôr â'r wyna. Daw i ben ar 10 Ebrill. Ni chaiff neb gyfle i ddweud ei farn yn iawn arni. Mae'r economi a'r gwasanaethau yng nghefn gwlad Cymru'n dibynnu ar gefn gwlad byw a ffyniannus, sydd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar amaethyddiaeth gynaliadwy, sydd yn cael ei dinistrio.

Yn olaf, af â chi'n ôl i 1957, ymhell cyn eich geni chi, Glyn. Dywed erthygl 39.1(b) o Gytundeb Rhufain mai un o amcanion y Polisi Amaethyddol Cyffredin yw:

'sicrhau safon byw deg i'r gymuned amaethyddol, yn enwedig drwy gynyddu enillion unigol y rhai sydd yn ymwneud ag amaethyddiaeth.'

Bron hanner canrif yn ddiweddarach mae'r weinyddiaeth Lafur hon wedi dinistrio'r ddelfryd hon. Pa bryd y caiff ffermwyr Cymru safon byw deg?

3:40 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf welliant 1. Yn llinell 1 dileer '*gresynu at fethiant*' ac ychwanegu '*pryderu o weld methiant*'.

Cynigiaf welliant 2. Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger '*sydd yn cael eu tanseilio gan werth uchel y bunt*'.

Pan welais y cynnig hwn, yr oeddwn yn bryderus mai'r hyn yr oeddem yn mynd i'w gael oddi wrth y grŵp Ceidwadol oedd y rhefro arferol. Credaf fod hynny'n siomedig. Trafodwn y cynnig pwysig hwn sydd yn sôn am y modd y tanseiliwyd yr economi wledig a gwasanaethau yng nghefn gwlad yn sgil datganiad hynod o bwysig o 10 Stryd Downing rai wythnosau yn ôl ynglŷn â chymhorthdal i'r diwydiant amaethyddol. Mae'n ddadlennol i nifer o Aelodau'r Cynulliad gerdded allan yn ystod yr agoriad hwnnw gan Peter Rogers. Rhybuddiaf Peter fod pobl nid yn unig yn cerdded allan o'r Siambra hon ond fod yna bobl sydd yn cau eu clustiau i'r argyfwng yng nghefn gwlad bob tro y gwneir y math hwn o ddatganiad.

Yr wyf mor ymwybodol ag unrhyw un o'r argyfwng yng nghefn gwlad. Mae nifer o Aelodau eraill yn ymwybodol o'r argyfwng. Nid oes angen i rywun weiddi arnom yn barhaus i'n hatgoffa o'r argyfwng. Mae angen inni weithredu yn ymarferol ac yn gadarnhaol i wneud rhywbeth am yr argyfwng. Nid yw pobl yng nghefn gwlad eisiau gael eu hatgoffa yn barhaus o'r newyddion drwg. Maent eisiau clywed yr hyn sydd gan y Cynulliad i'w ddweud am eu sefyllfa a'r hyn y mae'r Cynulliad yn mynd i'w wneud. Wrth wrando ar agoriad Peter, meddyliais a oedd holl broblemau cefn gwlad a'r diwydiant amaethyddol wedi datblygu yn sydyn ym mis Mai 1997? Nid dyna fy atgof i o'r sefyllfa. Nid oedd pethau ddim gwell o dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol. Nid oes pwyt iddynt weiddi arnom yma a dweud beth sydd angen ei wneud. Cawsant 18 mlynedd i wneud rhywbeth am y sefyllfa. Gwaethygodd y sefyllfa o dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf.

**Rod Richards:** Dywedodd Rhodri Glyn yn gynharach y dylai'r Cynulliad wneud pethau

**Rhodri Glyn Thomas:** I propose amendment 1. In line 1 delete '*deplores*' and replace with '*is concerned at*'.

I propose amendment 2. At the end of the motion add '*which are being undermined by the high value of sterling*'.

When I saw this motion, I was worried that what we were going to get from the Conservative group was the usual rant. I think that is disappointing. We are discussing this important motion which talks about the way in which the rural economy and services in the countryside have been undermined following an exceptionally important statement from 10 Downing Street a few weeks ago regarding aid for the agricultural industry. It is revealing that many Assembly Members walked out during that opening by Peter Rogers. I warn Peter that people are not only walking out of this Chamber but there are people who are shutting their ears to the crisis in the rural areas every time this kind of statement is made.

I am as aware as anyone of the crisis in the rural areas. Many other Members are aware of the crisis. There is no need for someone to shout at us continuously to remind us of the crisis. We need to take practical and affirmative actions to do something about the crisis. People in rural areas do not want people reminding them continuously of the bad news. They want to hear what the Assembly has to say about their situation and what the Assembly is going to do. While listening to Peter's opening remarks I wondered whether all the problems of the rural areas and the agricultural industry had developed suddenly in May 1997? That is not my recollection of the situation. Things were no better under the previous Conservative Government. There is no point in them shouting at us here and saying what needs to be done. They had 18 years to do something about the situation. The situation deteriorated under the last Conservative Government.

**Rod Richards:** Rhodri Glyn said earlier that the Assembly should do practical and

ymarferol a chadarnhaol. Felly, pam na chefnogodd Plaid Cymru gais Plaid Geidwadol Cymru i godi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ar y diwrnod cyntaf yn hytrach na chwympo i gôl y Blaid Lafur oherwydd fod dêl arall ar gael? Pam nad oeddech yn ymarferol ac yn gadarnhaol bryd hynny?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddem yn gwbl ymarferol a chadarnhaol. Ar awgrym Plaid Cymru y dechreuwyd ar ymchwiliad cynhwysfawr i'r mater hwn. Yn ogystal, o ganlyniad i'r ymchwiliad cynhwysfawr hwn nid yn unig y codwyd y gwaharddiad yng Nghymru ond fe'i codwyd ledled Prydain. Yr wyf yn falch o'r ffordd y gwnaeth y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig dan Gadeiryddiaeth Ieuan Wyn Jones ymdrin â'r broblem honno. Mae'n dangos sut y gellir gweithredu yn gadarnhaol, ymarferol a chyfrifol mewn sefyllfa felly. Pe baem wedi dilyn yr hyn y mae Rod yn ei awgrymu byddai Cymru mewn sefyllfa lawer gwanach yn sgil rhai o'r rheoliadau y byddwn yn eu hwynebu o Ewrop ynglŷn â chig ar yr asgwrn yn y dyfodol.

**Rod Richards:** Felly, a yw Rhodri'n cadarnhau nad polisi Plaid Cymru ar y pryd oedd bod y Cynulliad yn arwain y ffordd ond ei fod yn dilyn yr hyn a oedd yn digwydd yn San Steffan?

**Rhodri Glyn Thomas:** Synnaf nad yw gwleidydd o brofiad Rod Richards yn deall sut mae'r broses wleidyddol yn gweithio. Gwelsom yn achos y datganiad a ddaeth o 10 Stryd Downing ychydig o wythnosau yn ôl sut y mae pwysau gwleidyddol o un sefydliad gwleidyddol yn gallu arwain at ddatganiadau o sefydliadau eraill. A yw Rod yn dweud y byddai'n well ganddo weld y gwaharddiad yn cael ei godi yng Nghymru yn unig ac nid yng ngwledydd eraill Prydain?

Nid oes dwywaith mai'r hyn yr oedd ar y diwydiant amaeth ei angen oedd gweld y gwaharddiad hwnnw yn cael ei godi drwy Brydain gyfan. Dechreuwyd y broses honno gan yr ymchwiliad yng Nghymru—dyna'r hyn a symbolodd yr ymateb oddi wrth lywodraethau eraill. Fel gyda'r iawndal amaeth-arianyddol a'r taliadau hylendid llaeth, daeth hynny oherwydd y pwysau

affirmative things. Therefore, why did Plaid Cymru not support the Welsh Conservative Party's attempt to lift the beef on the bone ban on the first day rather than playing into the hands of the Labour Party because another deal was available? Why were you not practical and affirmative then?

**Rhodri Glyn Thomas:** We were totally practical and affirmative. It was at the suggestion of Plaid Cymru that a comprehensive inquiry was initiated into this matter. In addition, as a result of this comprehensive inquiry not only was the ban lifted in Wales but it was lifted throughout Britain. I am proud of the way the Agriculture and Rural Development Committee under the Chairmanship of Ieuan Wyn Jones dealt with that problem. It shows how to take affirmative, practical and responsible action in such a situation. Had we followed what Rod is suggesting, Wales would be in a much weaker position as a result of some of the regulations that we will be facing from Europe regarding meat on the bone in the future.

**Rod Richards:** Therefore, does Rhodri confirm that Plaid Cymru's policy at the time was not that the Assembly leads the way but that it follows what was happening in Westminster?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am surprised that a politician of Rod Richards's experience does not understand how the political process works. We saw in the case of the statement that came from 10 Downing Street a few weeks ago how political pressure from one political institution can lead to statements from other institutions. Is Rod saying that he would prefer to see the ban being lifted solely in Wales and not in the other countries of the UK?

There is no question that what the agriculture industry needed was to see that ban lifted throughout the whole of the UK. The inquiry in Wales was initiated by that process—that is what motivated the response from other governments. As with the agri-monetary compensation and the dairy hygiene charges, it came because of the political pressure that was produced here. It shows clearly what can

gwleidyddol a grewyd yma. Mae'n dangos yn glir beth y gellir ei wneud yn gadarnhaol ac yn ymarferol i geisio ateb problemau dwysaf cefn gwlad.

Beth yw ein rôl ni fel Aelodau o'r Cynulliad? Beth yw rôl y Cynulliad? Mae angen i'r weinyddiaeth Lafur—y Llywodraeth leiafrifol sydd gennym—ddangos bod ganddi raglen wleidyddol glir ar gyfer delio gyda phroblemau cefn gwlad. Cytunaf â'r cynnig nad ydym wedi gweld y rhaglen wleidyddol honno eto. Clywsom am y mesurau sydd yn y cynllun datblygu gwledig ac yn y ddogfen raglennu sengl a aeth i Ewrop, ond nid ydym wedi gweld rhaglen wleidyddol gadarn, glir oddi wrth y weinyddiaeth. Mae lle gan y Cynulliad i fynegi pryder nad yw'r weinyddiaeth Lafur wedi cyflwyno'r rhaglen glir honno eto. Yr ydym yn aros amdani. Dywedodd Edwina yn ei datganiad, wedi'r datganiad gan 10 Stryd Downing, y bydd cyfle yn ystod y misoedd nesaf cyn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Genedlaethol i'r rhaglen honno gael ei chyflwyno.

**John Griffiths:** Rhodri, as you are looking for practical measures that would benefit the rural economy in Wales, one practical measure is the effective implementation of the Countryside and Rights of Way Bill. It is widely proven that that would have great economic benefit for the rural economy of Wales. Do you support the effective implementation of that Bill?

**Rhodri Glyn Thomas:** Y geiriau hanfodol yma, John, yw gweithredu effeithiol. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan ac a gyflwynir inni yn y Cynulliad yn holol aneffeithiol i weithredu'r cynllun hwn. Mae John yn iawn fod dogfennau ac astudiaethau a ddengys fod potensial i fuddsoddi yn yr economi wledig a allai ddod oddi wrth y fath gynllun. Ond yr hyn yr oedd ei angen, a'r hyn sydd yn ddiffygol yn y ddeddfwriaeth, yw'rffaith nad yw Llywodraeth Lafur San Steffan wedi caniatâu i'r Cynulliad greu'r math o ddeddfwriaeth sydd yn ateb anghenion Cymru. Pe bai hynny'n digwydd, a phe bai'r cymal hwnnw yn ein gallugoi i wneud hynny o fewn y ddeddfwriaeth, efallai y byddai rhai ohonom yn barotach i gefnogi'r

be done affirmatively and practically to try to answer the most severe problems of rural areas.

What is our role as Assembly Members? What is the Assembly's role? The Labour administration—the minority Government that we have—needs to show that it has a clear political programme for dealing with rural problems. I agree with the motion that we have not yet seen that political programme. We have heard of the measures contained in the rural development plan, and in the single programming document that has gone to Europe, but we have not seen a firm, clear political programme from the administration. The Assembly has room to express its concern that the Labour administration has not yet introduced that clear programme. We await it. Edwina said in her statement that, following the statement from 10 Downing Street, there would be an opportunity during the next few months before the Royal Welsh Agricultural Show for that programme to be presented.

**John Griffiths:** Rhodri, gan eich bod yn chwilio am fesurau ymarferol a fyddai o fudd i'r economi wledig yng Nghymru, un mesur ymarferol yw gweithredu'r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn effeithiol. Profwyd mewn llawer man y byddai hynny o fudd economaidd mawr i economi wledig Cymru. A gefnogwch weithredu'r Mesur hwnnw'n effeithiol?

**Rhodri Glyn Thomas:** The essential words here, John, are effective implementation. The plans that have been presented by the Labour Government in Westminster and that are presented to us in the Assembly are completely ineffective to implement this plan. John is right that there are documents and studies that show that there is potential for investing in the rural economy that could come from such a plan. But what was needed, and what is lacking in the legislation, is the fact that the Labour Government in Westminster has not allowed the Assembly to create the sort of legislation that responds to Wales's needs. If that were to happen, and if that clause would enable us to do that within the legislation, then perhaps some of us would be more willing to support that

ddeddfwriaeth honno ac i'w gweld yn cael ei gweithredu yn ymarferol yng Nghymru.

Mae angen i'r weinyddiaeth Lafur ddwyn y cynlluniau hyn gerbron mewn ffordd sydd yn ymarferol i'w gweithredu ac sydd yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol yng nghefn gwlaid. Yr wyf yn siŵr y bydd Christine, wrth iddi grynhoci, yn cyflwyno rhai o'r syniadau hyn. Ond syniadau sydd yn ymateb ydynt—maent yn ymateb i argyfwng yn hytrach na chynnig gweledigaeth glir ar gyfer yr economi wledig.

Y cwestiwn arall a gododd wrth imi wrando ar gyflwyniad Peter oedd a fyddai'r Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, pe bai wedi aros mewn grym, wedi ymateb yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r argyfwng presennol yng nghefn gwlaid. Yr oedd yn ddadlennol pan geisiodd Peter ymateb i bwynt Elin Jones ynglŷn â chryfder y bunt—dyna'r elfen sydd yn tanseilio'r economi wledig. Dyna sydd yn creu'r problemau yng nghefn gwlaid, a gwyddom beth yw safbwyt y Blaid Geidwadol ar y bunt gref—y mae'n rhan greiddiol o'i pholisiau a'i delwedd wleidyddol. Hyd nes yr awn i'r afael â'r broblem honno, ni wneir gwahaniaeth sylfaenol i'r problemau sydd yn wynebu'r economi wledig.

3:50 p.m.

Nid oes llawer o wahaniaeth—trwch adain gwybedyn o wahaniaeth—rhwng polisiau asgell dde Tony Blair a Gordon Brown ar y bunt, a pholisiau blaenorol John Major a Kenneth Clarke. Dyna sydd yn creu'r problemau yng nghefn gwlaid. Llunir yr agenda yn ne-ddwyrain Lloegr gan anghenion de-ddwyrain Lloegr. Mae graddfeydd llog yn dal i godi ar sail prisiau tai yn ne-ddwyrain Lloegr. Mae hynny'n cryfhau'r bunt ac yn dwysâu'r problemau yng nghefn gwlaid. Rhaid i'r Cynulliad geisio defnyddio—

**Nick Bourne:** If you believe that the policy on the European currency was so popular in Wales, how do you account for the fact that the Conservative Party did overwhelmingly well throughout the United Kingdom, particularly in Wales and in your area, in the European elections?

legislation and to see it implemented practically in Wales.

The Labour administration needs to put these plans forward in a way that is practical to implement and that offers real opportunities in the countryside. I am sure that Christine, in her summing up, will present some of these ideas. But they are ideas that react—they react to a crisis rather than offer a clear vision for the rural economy.

The other question that arose as I listened to Peter's introduction was whether the last Conservative Government would, had it stayed in power, have reacted differently in any way to the present crisis in the countryside. It was revealing when Peter tried to respond to Elin Jones's point about the strength of the pound—that is the element that undermines the rural economy. That is what creates problems in the countryside and we know what the Conservative Party's point of view is on the strong pound—it is a central part of its policies and its political image. Until we tackle that problem, no basic difference will be made to the problems facing the rural economy.

There is not much difference—a hair's breadth of difference—between Tony Blair and Gordon Brown's right wing policies on the pound, and John Major and Kenneth Clarke's previous policies. That is what creates the problems in the countryside. The agenda is set in south-east England by south-east England's needs. Interest rates continue to rise on the basis of house prices in south-east England. That strengthens the pound and deepens the problems in the countryside. The Assembly must try to use—

**Nick Bourne:** Os credwch fod y polisi ar yr arian treigl Ewropeaidd mor boblogaidd yng Nghymru, sut yr esboniwr y ffâith fod y Blaid Geidwadol wedi gwneud mor ysgubol o dda ledled y Deyrnas Unedig, yn enwedig yng Nghymru ac yn eich ardal chi, yn yr etholiadau Ewropeaidd?

**Rhodri Glyn Thomas:** I was under the impression that Plaid Cymru did slightly better than the Conservatives in my area and throughout Wales. If that is the measure that you want to use to judge people's view of the pound, it is about time that we joined the euro. I fail to see the relevance of your point. However, the point that I am making—

**The Presiding Officer:** Order. This is a Conservative debate. At this rate, no other Conservative will be called.

Rhodri Glyn Thomas, a ddoi di i derfyn?

**Rhodri Glyn Thomas:** I deplore the way in which the Labour administration is responding to the crisis in rural areas, the rural economy and rural services. I would need to be persuaded that the Conservative Government has responded more effectively in the past, and would do so if it were still in power. However, I am not persuaded. This is a Conservative rant. Let us acknowledge our concern about the lack of clear policies by the present administration and challenge them to bring forward those policies. The strength of sterling creates problems and something must be done about that before we can begin to respond to the issues of rural Wales and the rural economy. I accept Mick's amendment and we will support it.

**Mick Bates:** I propose amendment 3. Add at the end of the motion:

*and directs the Executive to produce appropriate rural economic and quality of life indicators that will allow decisions to be taken in order to reverse the decline in the rural economy and rural services.*

We will oppose amendment 1, because we deplore the administration's attitude. That amendment weakens the whole motion. However, we will support amendment 2. I hope to bring rational debate to this motion. I welcome the debate, although the irony of the fact that the Tories are also responsible for the current situation is not lost on me, once a farmer. However, as a practical person, I believe that we must look forward positively and try to build for Wales's rural

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn o dan yr argraff fod Plaid Cymru wedi gwneud ychydig yn well na'r Ceidwadwyr yn fy ardal i a ledled Cymru. Os mai hwnnw yw'r ffon fesur yr ydych am ei defnyddio i farnu yngylch safbwyt pobl ar y bunt, mae'n hen bryd inni ymuno â'r ewro. Methaf â gweld perthnasedd eich pwynt. Fodd bynnag, y pwynt yr wyf fi'n ei wneud—

**Y Llywydd:** Trefn. Dadl y Ceidwadwyr yw hon. Osawn ymlaen fel hyn, ni elwir ar yr un Ceidwadwr arall.

Rhodri Glyn Thomas, will you wind up?

**Rhodri Glyn Thomas:** Gresynaf at y ffordd y mae'r weinyddiaeth Lafur yn ymateb i'r argyfwng mewn ardaloedd gwledig, yr economi wledig a gwasanaethau gwledig. Byddai angen imi gael fy argyhoeddi bod y Llywodraeth Geidwadol wedi ymateb yn fwy effeithiol yn y gorffennol, ac y gwnâi pe bai'n dal i fod mewn grym. Fodd bynnag, ni'm hargyhoeddwyd. Rhefru Ceidwadol yw hyn. Gadewch inni gydnabod ein pryder yngylch diffyg polisiau pendant gan y weinyddiaeth bresennol a'u herio i gyflwyno'r polisiau hynny. Mae cryfder y bunt yn creu problemau a rhaid gwneud rhywbeth yngylch hynny cyn y gallwn ddechrau ymateb i faterion cefn gwlad Cymru a'r economi wledig. Derbyniaf welliant Mick a byddwn yn ei gefnogi.

**Mick Bates:** Cynigiaf welliant 3. Ychwanegor ar ddiwedd y cynnig:

*ac yn cyfarwyddo'r Weithrediaeth i gynhyrchu dangosyddion priodol ar gyfer yr economi wledig ac ansawdd bywyd a fydd yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud a fydd yn gwyrdroi'r dirywiad yn yr economi wledig a gwasanaethau gwledig.*

Byddwn yn gwrrhwynebu gwelliant 1, oherwydd gresynwn at agwedd y weinyddiaeth. Mae'r gwelliant hwnnw'n gwanhau'r cynnig cyfan. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi gwelliant 2. Gobeithiaf gymhwysod dadlau rhesymol at y cynnig hwn. Croesawaf y ddadl, er nad wyf fi, a fu unwaith yn ffermwr, wedi methu eironi'r ffaith fod y Toriaid hefyd yn gyfrifol am y sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, fel rhywun ymarferol, credaf ein bod yn gorfod edrych

future.

I wish to focus on a method that can be used to provide information that will enable action to be taken to stop the decline referred to in the motion. That decline has been illustrated by many recent events, such as the closure of post offices and banks, a decline in manufacturing and the decline in business start-ups. In Powys, there was a 12 per cent decline in business start-ups in the past four years. There has also been a lack of investment in infrastructure and a continued loss of young people from our rural areas. This decline has been hastened by the strength of the pound. Wales has not done well economically, relative to the rest of the UK or Europe. We have higher unemployment, lower incomes and lower numbers of the population of working age in employment.

The European structural funding for 2000-06 has focused attention on the measure of economic performance based on gross domestic product. Wales's gross domestic product per capita is 82 per cent of the EU average. In west Wales and the Valleys it is 71 per cent. GDP will remain the means of measuring economic regeneration. For example, the aim in our Objective 1 programme is to take us to 87 per cent of the UK average by 2006. That requires an annual growth rate of 3.5 per cent.

I contend in this amendment that GDP is an inadequate measure—it is about quantity, not quality. The United Nations human development programme argues that all countries should pay more attention to the quality rather than quantity of growth. It identifies five damaging forms of growth: its effect on the jobless—growth that does not translate into jobs; voiceless people—growth that is not matched by the spread of democracy; being rootless—growth that snuffs out cultural identity; futureless—growth that despoils the environment, and ruthless—growth where the benefits are seized only by the rich. Rapid growth rates measured by GDP hide the growth of social exclusion, environmental degradation in terms of the individual's welfare or that of

ymlaen yn gadarnhaol a cheisio adeiladu ar gyfer dyfodol gwledig Cymru.

Dymunaf ganolbwytio ar ddull y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth a fydd yn hwyluso gweithredu i atal y dirywiad y cyfeirir ato yn y cynnig. Dangoswyd y dirywiad hwnnw drwy lawer o ddigwyddiadau'n ddiweddar, megis cau swyddfeydd post a banciau, dirywiad mewn gweithgynhyrchu a'r dirywiad yn nifer y busnesau sydd yn dechrau. Ym Mhowys, bu dirywiad o 12 y cant yn nifer y busnesau newydd yn y pedair blynedd diwethaf. Bu diffyg buddsoddi hefyd mewn seilwaith a cholled barhaus o bobl ifanc o'n hardaloedd gwledig. Cyflymwyd y dirywiad hwn gan gryfder y bunt. Ni wnaeth Cymru'n dda yn economaidd, o'i chymharu â gweddill y DU neu Ewrop. Mae gennym ddiweithdra uwch, incwm is a niferoedd is o'r boblogaeth o oed gweithio mewn cyflogaeth.

Mae'r cyllid strwythurol Ewropeidd am 2000-06 wedi canolbwytio sylw ar y mesur o berfformiad economaidd sydd yn seiliedig ar gynnyrch mewnwladol crynswth. Mae'r cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng Nghymru yn 82 y cant o gyfartaledd yr UE. Yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd mae'n 71 y cant. Bydd CMC yn parhau'n ddull o fesur adfywiad economaidd. Er enghraifft, y nod yn ein rhaglen Amcan 1 yw ein codi i 87 y cant o gyfartaledd y DU erbyn 2006. Mae hynny'n gofyn cyfradd dwf flynyddol o 3.5 y cant.

Dadleuaf yn y gwelliant hwn fod CMC yn fesurydd annigonol—mae'n ymwneud â maint, nid ansawdd. Mae rhaglen datblygu dynol y Cenhedloedd Unedig yn dadlau y dylai pob gwlaid roi mwy o sylw i ansawdd twf yn hytrach na'i faint. Dynoda bum ffurf niweidiol o dwf: ei effaith ar y di-waith—twf nad yw'n troi'n swyddi; pobl heb lais—twf nad yw'n cyd-fynd â lledaeniad democratioeth; bod yn ddiwreiddiau—twf sydd yn dileu hunaniaeth ddiwylliannol; diffyg dyfodol—twf sydd yn anrheithio'r amgylchedd, a didostur—twf lle y gafaelir yn y manteision gan y cyfoethogion yn unig. Mae cyfraddau twf cyflym a fesurir trwy gynnyrch mewnwladol crynswth yn cuddio twf allgáu cymdeithasol, dirywiad amgylcheddol o ran lles yr unigolyn neu o ran

sustainable development and income distribution—a high GDP can be achieved while many people live in poverty. The Assembly has a statutory duty under Section 121 of the Government of Wales Act 1998, to practice sustainability in all of its functions. We must consider alternative indicators, or we may find ourselves in the same situation as they did in Ireland between 1987 and 1995, when the top 40 per cent of household incomes grew twice as fast as the bottom 40 per cent, thereby widening the gap between rich and poor.

We have an opportunity to direct our Executive to provide indicators that mean something to the quality of life for all people in Wales. This is social inclusion. We need a sustainable development measure. The Liberal Democrats strongly believe that we must develop an index of sustainable economic welfare, as proposed and amended by the Welsh Institute of Rural Studies in a paper written by Peter Midmore, Jon Matthews and Michael Christie earlier this year. I recommend that everybody reads it. I see that Cynog has, as he is nodding his head. The index is not only raw GDP, it requires 20 adjustments to take into account the hidden costs of environmental degradation caused by congestion, air and water pollution; commuting; personal pollution control and the loss of farmland and farmers, the depletion of our natural resources and many other factors. These indicators are not just theoretical; they are used in Germany, the Netherlands and many other European countries. Our Rural Development Plan has taken steps in the right direction, but needs greater recognition of this sustainable economic welfare index.

However, indicators such as this require good data, which is not available in Wales. In comparison to Scotland, the study of the Welsh Institute of Rural Studies states that:

‘for Wales, a weaker base of published statistics leads to serious difficulties, although if a more effective set of economic policies emerged the extra cost of collection

datblygu cynaliadwy a dosbarthu incwm—gellir cyflawni CMC uchel tra bod llawer yn byw mewn tlodi. Mae dyletswydd statudol ar y Cynulliad o dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i arfer cynaliadwyedd ym mhob un o'i swyddogaethau. Rhaid inni ystyried dangosydion amgen, neu gallem gael ein hunain yn yr un sefyllfa ag Iwerddon rhwng 1987 a 1995, pan dyfodd y 40 y cant uchaf o incwm teuluol ddwywaith yn gynt na'r 40 y cant isaf, gan ledaenu'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd.

Mae gennym gyfle i gyfarwyddo ein Gweithrediaeth i ddarparu dangosydion sydd yn golygu rhywbeth i ansawdd bywyd holl bobl Cymru. Cynhwysiant cymdeithasol yw hyn. Mae arnom angen mesurydd datblygu cynaliadwy. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu'n gryf bod rhaid inni ddatblygu mynegai o les economaidd cynaliadwy, fel a gynigiwyd ac a ddiwygiwyd gan Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru mewn papur a ysgrifennwyd gan Peter Midmore, Jon Matthews a Michael Christie yn gynharach eleni. Argymhellaf y dylai pawb ei ddarllen. Gwelaf fod Cynog wedi gwneud, gan ei fod yn nodio ei ben. Nid yw'r mynegai'n gynnrych mewnwladol crynswth syml yn unig, mae'n gofyn 20 o gymwysiadau er mwyn cymryd i ystyriaeth y costau cudd o ddirywiad amgylcheddol a achosir gan dagfeydd, llygredd aer a dŵr, cymudo; rheolaeth llygredd personol a cholli tir amaeth a ffermwyr, dihysbyddu ein hadnoddau naturiol a llawer o ffactorau eraill. Nid dangosydion damcaniaethol yw'r rhain yn unig; fe'u defnyddir yn yr Almaen, yr Iseldiroedd a llawer o wledydd Ewropeaidd eraill. Mae ein Cynllun Datblygu Gwledig wedi cymryd camau i'r cyfeiriad cywir, ond mae angen mwy o gydnabyddiaeth ynddo i'r mynegai lles economaidd cynaliadwy hwn.

Fodd bynnag, mae angen data da ar gyfer dangosydion o'r fath, nad ydynt ar gael yng Nghymru. O'i chymharu â'r Alban, dywed astudiaeth Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru:

‘yn achos Cymru, mae'r sylfaen wannach o ystadegau cyhoeddodedig yn arwain at anawsterau difrifol, ond pe deuai set fwy effeithiol o bolisiau economaidd i'r amlwg

ought to be totally justified'.

Data is crucial to the effective use of structural funds to regenerate our rural areas using effective sustainable indicators. While we understand the failures of the past, we must build indicators that will help build our future. The Liberal Democrats believe that the right direction, as indicated by the index of sustainable economic welfare, will reverse the decline in rural areas. Sustainable solutions will be found by empowering our communities to take action for themselves through, for example, community development.

Community development enables communities to strengthen their economic, social and environmental resources by examining their own communities. This type of bottom-up programme puts the community at the centre of the development process. Programmes such as LEADER are to be commended, because they are based on implementing communities' desires, which are often based on looking at the indicators within their own communities.

I urge you to support this amendment which will bring greater prosperity to rural areas by an examination of all the indicators which will lead to a better quality of life for those people referred to in the motion who desperately need our help.

4:00 p.m.

**The Presiding Officer:** Before I call Glyn Davies, I remind Members that it is the practice in party group debates to call Members of the group that is holding the debate alternately with other Members. However, because I have to call the Secretary for Agriculture and Rural Development at 4.10 p.m. to respond, followed by Nick Bourne, it will be difficult for me to accommodate anyone except Glyn Davies unless he can be abstemious, so to speak.

**Glyn Davies:** There can no longer be any question that, from a rural perspective, the current Labour Government is the worst, most uncaring British Government for a

dylai'r gost ychanegol o'u casglu fod yn gwbl gyfiawnadwy'.

Mae data'n holl bwysig er mwyn defnyddio cronfeydd strwythurol yn effeithiol i adfywio ein hardaloedd gwledig gan ddefnyddio dangosyddion cynaliadwy effeithiol. Tra deallwn fethiannau'r gorffennol, rhaid inni greu dangosyddion a fydd o gymorth i adeiladu ein dyfodol. Cred y Democratiaid Rhyddfrydol y bydd y cyfeiriad cywir, fel a ddangosir gan y mynegai lles economaidd cynaliadwy, yn gwyrdroi'r dirywiad mewn ardaloedd gwledig. Darganfyddir atebion cynaliadwy drwy gyfnerthu ein cymunedau i weithredu drostynt eu hunain drwy ddatblygu cymunedol, er enghraifft.

Mae datblygu cymunedol yn galluogi cymunedau i gryfhau eu hadnoddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy archwilio eu cymunedau eu hunain. Mae rhaglen o'r gwaelod i fyny o'r math hwn yn rhoi'r gymuned ar galon y broses datblygu. Mae rhagleni fel LEADER i'w canmol, am eu bod yn seiliedig ar weithredu dyheadau cymunedau, sydd yn seiliedig yn aml ar edrych ar y dangosyddion oddi mewn i'w cymunedau eu hunain.

Fe'ch anogaf i gefnogi'r gwelliant hwn a ddaw â mwy o ffyniant i ardaloedd gwledig drwy archwilio'r holl ddangosyddion a fydd yn arwain at well ansawdd bywyd i'r bobl hynny y cyfeirir atynt yn y cynnig sydd â thaer angen am ein cymorth.

**Y Llywydd:** Cyn imi alw ar Glyn Davies, atgoffaf yr Aelodau mai'r arfer yn nadleuon grwpiau'r pleidiau yw galw ar Aelodau o'r grŵp sydd yn cynnal y ddadl am yn ail ag Aelodau eraill. Fodd bynnag, am fod rhaid imi alw ar yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am 4.10 p.m. i ymateb, a Nick Bourne wedyn, bydd yn anodd imi gynnwys neb heblaw Glyn Davies oni bai ei fod yn gallu bod yn gymedrol, a'i eirio felly.

**Glyn Davies:** Ni ellir amau bellach mai'r Llywodraeth Lafur bresennol, o safbwyt gwledig, yw'r Llywodraeth Brydeinig waethaf, fwyaf esgeulus ers canrif. Dros y

century. Over the last three years, the prosperity, economic prospects and morale of rural Wales have been undermined in a way that has shocked the Welsh countryside. Since the Welsh Labour Government in Cardiff Bay invariably associates itself with the misguided policies of Westminster, it must accept its share of responsibility. My colleague, Peter Rogers, a man who genuinely and passionately understands rural Wales has already spoken in his inimitable style about the crisis that has befallen Welsh agriculture—the basis of our rural economy. Farm incomes have collapsed in many cases into a loss situation. Pig farmers and dairy farmers are going out of business at an ever-increasing rate. The young people of rural Wales are leaving the industry and the area because there are so few worthwhile prospects to persuade them to stay.

The usual response from Labour Members in Westminster and in the Assembly is that the problems of agriculture arise from a strong pound. We heard that today. That is stated as if it has nothing whatsoever to do with the Government. The amendments to our motion indicate that Plaid Cymru's agriculture spokesman agrees with them. That is not good enough. The argument is faulty for two reasons. First, the exchange rate problem is not so much because of a strong pound but because of a weak euro. The dollar and yen exchange rates have changed little over many years. Many in the current Government and the apologists for the current Government go on about the strong pound in a desperate attempt to prevent the public from appreciating what a disaster the euro has been. The problem is that the Government has not fully used the compensatory mechanisms put in place to deal with the economic consequences of a falling euro.

Secondly, there is the contribution that the Government itself has made to the exchange rate movements by diverting spending capacity away from savings and pension provision into consumer spending. That inevitably means higher interest rates and more unfavourable exchange rates. The damage wrought on the rural economy of Wales by the Chancellor's cavalier abolition of tax exempt special savings accounts,

tair blynedd diwethaf, tanseiliwyd ffyniant, rhagolygon economaidd a morâl y Gymru wledig mewn modd a syfrdanodd gefn gwlad Cymru. Gan fod Llywodraeth Lafur Cymru yn Mae Caerdydd yn ymgysylltu'n ddieithriad â pholisiau cyfeiliornus San Steffan, rhaid iddi dderbyn ei rhan o'r cyfrifoldeb. Mae fy nghyd-Aelod, Peter Rogers, gŵr sydd â dealltwriaeth wirioneddol ac angerddol o gefn gwlad Cymru wedi siarad eisoes yn ei ddull unigryw am yr argyfwng a ddaeth i ran amaethyddiaeth Cymru—sylfaen ein heonomi wledig. Mae incwm ffermydd wedi dirywio mewn llawer achos i sefyllfa o golled. Mae mwyfwy o ffermwyr moch a ffermwyr llaeth yn mynd allan o fusnes. Mae pobl ifanc cefn gwlad Cymru'n gadael y diwydiant a'r ardal am fod cyn lleied o ragolygon buddiol i'w cymell i aros.

Yr ymateb arferol gan Aelodau Llafur yn San Steffan ac yn y Cynulliad yw bod problemau amaethyddiaeth yn deillio o bunt gref. Clywsom hynny heddiw. Dywedir hynny fel pe na bai hynny ag unrhyw gysylltiad o gwbl â'r Llywodraeth. Mae'r gwelliannau i'n cynnig yn dangos bod llefarydd amaethyddiaeth Plaid Cymru'n cytuno â hwy. Nid yw hynny'n ddigon da. Mae'r ddadl yn ddiffygol am ddau reswm. Yn gyntaf, nid yw problem y gyfradd gyfnewid yn ganlyniad i bunt gref yn ogymaint ag ewro gwan. Ychydig o newid a fu yng nghyfraddau cyfnewid y ddoler a'r ien dros flynyddoedd lawer. Mae nifer yn y Llywodraeth bresennol a diffynwyr y Llywodraeth bresennol yn sôn o hyd am y bunt gref mewn ymgais enbyd i gadw'r cyhoedd rhag sylweddoli'r fath drychineb a fu'r ewro. Y broblem yw nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud defnydd llawn o'r mecanweithiau ad-daliadol a roddwyd ar waith i ymdrin â'r canlyniadau economaidd i gwyp yr ewro.

Yn ail, mae'r cyfraniad a wnaeth y Llywodraeth ei hun i symudiadau'r gyfradd gyfnewid drwy gyfeirio'r gallu gwario oddi wrth gynillion a darpariaeth pensiynau ac i wariant gan ddefnyddwyr. Mae hynny'n anorfol yn golygu cyfraddau llog uwch a chyfraddau cyfnewid mwy anffafriol. Nid yw'r difrod a wnaethpwyd i economi wledig Cymru gan ddiddymiad ffwrdd-â-hi'r Canghellor o gyfrifon cynillion arbennig di-

personal equity plans, the failure of the Chancellors new individual savings account and the vicious taxation attack on private pensions has not received the condemnation it deserves in Wales.

It is not only agriculture that has been undermined. The whole rural economy of Wales has been affected. The Welsh rural economy is built on three pillars: agriculture, the manufacturing industry and tourism. Unfavourable exchange rates hit all three pillars at the same time and have brought the rural economy to its knees. To make things worse, Labour has resolved to further undermine a demoralised countryside by attacking centuries-old traditions and rights that are part of the life of rural Wales. Labour seems determined to impose its urban values on the countryside through, for example, a ban on hunting where emotion is replacing fact and common sense—

**Ann Jones:** What would you say to the farmers I have met who say that they are concerned about the wheat fields when the hunt goes across them?

**Glyn Davies:** You meet farmers whom I do not meet. If they say that the hunt should not go across their wheat fields, then it should not. It works entirely on a voluntary basis.

**Ann Jones:** But it is all right for them to go everywhere else?

**Glyn Davies:** Yes, if it is by agreement, which is what we approve of.

We now face the new right to roam legislation. The Countryside Bill has virtually no relevance to Wales. There is already a great deal of public access and a huge commitment by this Assembly to supporting Tir Gofal and to using the environmental elements—

**Alun Pugh:** Are you aware that walking creates 5,000 jobs in Wales? That is not a Labour Party figure; that is from a report by Peter Midmore, who is Professor of Rural Studies at the University of Wales, Aberystwyth. There is enormous potential to increase that number of jobs even more, so

dreth, cynlluniau ecwiti personol, methiant cyfrif cynillion unigol newydd y Canghellor a'r ymosodiad trethiant ciaidd ar bensiynau preifat wedi ei gollfarnu yn y modd y mae'n ei haeddu yng Nghymru.

Nid amaethyddiaeth yn unig a danseiliwyd. Effeithiwyd ar y cwbl o economi wledig Cymru. Mae economi wledig Cymru wedi ei adeiladu ar dair colofn: amaethyddiaeth, diwydiant gweithgynhyrchu a thwristiaeth. Trawyd y tair colofn hyn gan gyfraddau cyfnewid anffafriol yr un pryd a daethant â'r economi wledig i'w liniau. I wneud pethau'n waeth, penderfynodd Llafur danseilio cefn gwlad digalon ymhellach drwy ymosod ar draddodiadau a hawliau ganrifoedd oed sydd yn rhan o fywyd y Gymru wledig. Ymddengys fod Llafur yn benderfynol o orfodi ei werthoedd trefol ar gefn gwlad drwy, er enghrafft, waharddiad ar hela lle y mae emosiwn yn disodliffaith a synnwyr cyffredin—

**Ann Jones:** Beth a ddywedech wrth y ffermwyr y cyfarfum â hwy sydd yn dweud eu bod yn bryderus ynghylch y caeau gwenith pan yw'r helfa'n mynd ar eu traws?

**Glyn Davies:** Yr ydych yn cwrdd â ffermwyr nad wyf fi'n cwrdd â hwy. Os dywedant na ddylai'r helfa groesi eu caeau gwenith, ni ddylai. Mae'n gweithio'n gwbl wirfoddol.

**Ann Jones:** Ond a yw'n iawn iddynt fynd i bob man arall?

**Glyn Davies:** Ydyw, os yw hynny drwy gytundeb, sef yr hyn a gymeradwywn.

Yn awr yr ydym yn wynebu'r ddeddfwriaeth hawl i grwydro newydd. Nid yw'r Mesur Cefn Gwlad yn berthnasol o gwbl bron i Gymru. Mae llawer iawn o fynediad i'r cyhoedd eisoes ac ymrwymiad enfawr gan y Cynulliad i gynnal Tir Gofal a defnyddio elfennau amgylcheddol—

**Alun Pugh:** A ydych yn ymwybodol bod cerdded yn creu 5,000 o swyddi yng Nghymru? Nid ffigur y Blaid Lafur yw hwnnw; daw hynny o adroddiad gan Peter Midmore, sydd yn Athro Astudiaethau Gwledig ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae potensial anferth i

why will your party not move away from the simple slogan of 'get off my land'?

gynyddu'r nifer swyddi honno'n fwy byth, felly pam nad yw'ch plaid chi'n fodlon rhoi'r gorau i'r slogan syml o 'ewch oddi ar fy nhir'?

**Glyn Davies:** The Conservative Party has always favoured greater access by voluntary means. That was my point but you were not listening. We want the Assembly to support Tir Gofal and use the environment elements in Tir Mynydd to encourage further extension of access by voluntary agreement.

**Glyn Davies:** Mae'r Blaid Geidwadol yn ffafriol erioed i fwy o fynediad drwy ddulliau gwirfoddol. Dyna oedd fy mhwyt ond nid oeddech yn gwrando. Dymunwn i'r Cynulliad gynnal Tir Gofal a defnyddio'r elfennau amgylcheddol yn Tir Mynydd i annog ehangu pellach ar fynediad drwy gytundeb gwirfoddol.

We want Assembly Members to join us in calling for policies that will help to revive the rural economy and restore the morale of those who live and work in rural Wales. We must press the Chancellor to encourage saving and investment in private pensions to take pressure off consumer spending, interest rates and exchange rates. The Assembly must commit to improving transport links in rural Wales so that new industries can be encouraged to create a new diversified economy. The Assembly must make a greater commitment to the tourism industry, which is so important to the rural economy.

Yr ydym am i Aelodau'r Cynulliad ymuno â ni wrth alw am bolisiau a fydd o gymorth i adfywio'r economi wledig ac adfer morâl y rhai sydd yn byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Rhaid inni bwysor ar y Canhellor i annog cynilo a buddsoddi mewn pensiynau preifat er mwyn codi'r pwysau oddi ar wariant gan ddefnyddwyr, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid. Rhaid i'r Cynulliad ymroi i wella cysylltiadau trafnidiaeth yn y Gymru wledig fel y gellir annog diwydiannau newydd i greu economi amrywiol newydd. Rhaid i'r Cynulliad ymrwymo'n helaethach i'r diwydiant twristiaeth, sydd mor bwysig i'r economi wledig.

Our motion deplores the Labour Government's failure in Wales. I was interested to see that the amendment of Plaid Cymru's spokesman on agriculture and the rural economy suggested that we should not deplore it but simply be concerned by it. I promise Rhodri Glyn Thomas and the Labour Government that the Welsh Conservative AMs are made of something sterner than the malleable putty that passes for Plaid Cymru opposition. We resent, deplore and condemn Labour's appalling record in its disregard for rural Wales. We firmly believe that rural Wales will not recover its economic vitality, its self-confidence nor its confidence in Government until Britain and Wales are in the capable hands of a Conservative Government once again.

Mae ein cynnig yn gresynu at fethiant y Llywodraeth Lafur yng Nghymru. Yr oedd yn ddifyr imi weld fod gwelliant llefarydd Plaid Cymru ar amaethyddiaeth a'r economi wledig yn awgrymu na ddylem resynu ond pryderu'n unig ynghylch hynny. Caiff Rhodri Glyn Thomas a'r Llywodraeth Lafur weld bod Aelodau Cynulliad Ceidwadol Cymru o ddeunydd caletach na'r pwti hyblyg sydd yn gwneud y tro am wrthblaid Plaid Cymru. Yr ydym yn digio wrth, yn gresynu at ac yn collfarnu record warthus Llafur yn ei ddiystyrwch o'r Gymru wledig. Credwn yn bendant na fydd y Gymru wledig yn adfer ei hegni economaidd, ei hunanhyder na'i hymddiriedaeth mewn Llywodraeth nes bo Prydain a Chymru yn nwylo medrus Llywodraeth Geidwadol unwaith eto.

**Karen Sinclair:** I am disappointed at the choice of the Conservative Party's tone for this debate. On seeing the wording of the motion, my first reaction was to sigh, laugh and then become irritated. I am sick of going

**Karen Sinclair:** Yr wyf yn siomedig ynghylch yr oslef a ddewisodd y Blaid Geidwadol ar gyfer y ddadl hon. Wrth weld geiriad y cynnig, fy ymateb cyntaf oedd ocheneidio, chwerthin ac wedyn digio. Yr

over the same ground and of telling the truth in answer to negative and fictional accusations by the Conservative Party in response to the Labour Party's unrelenting efforts to regenerate our rural communities. Even the wording of the motion disappoints me. It is a completely false, negative statement and there is no attempt to present any ideas for further regeneration.

We are all aware of the luxury of being in opposition and this motion is an example of the negative, critical and amnesiac attitude that we have come to associate with the Conservative Party on Labour's approach to farming. We must remind ourselves of the Conservative Party's record on the rural economy. The phrase '18 years of Tory rule' is an overused one but we must clarify how the decimation caused by years of mismanagement brought the countryside to its knees in the first place. The Conservative Party proposed this motion but I remind you that it was the Conservative Party's complete ignorance of the initial BSE problems and the decline in risk assessment for short-term financial and electoral gain that sparked off the huge problems facing the industry today. Who deregulated bus services? Why does the Objective 2 document contain sections to tackle rural isolation? Which party preached to us for many years that market forces were the only way forward?

Other factors, for which it was not responsible, compounded the Conservative Party's management of the rural economy. The low level of world commodity prices is an indisputable problem facing the farming industry, which impacts on the whole of the rural community. Another factor has been the drive towards the restructuring of the common agriculture policy to move away from the heavy reliance on state aid and the subsidy under Agenda 2000. We are also aware of the problems caused by the strength of sterling and we would be wrong not to say that this is a tremendous problem for rural and all other areas. The last Conservative Government paid no agri-monetary compensation at all. I asked Peter Rogers about that but he did not answer my question.

wyf wedi hen flino ar fynd dros yr un tir a dweud y gwir wrth ateb honiadau negyddol a ffug gan y Blaid Geidwadol mewn ymateb i ymdrechion diflino'r Blaid Lafur i adfywio ein cymunedau gwledig. Mae geiriad y cynnig yn siom i mi hyd yn oed. Mae'n ddatganiad cwbl ffug a negyddol ac nid oes unrhyw ymgais i gyflwyno unrhyw syniadau ar gyfer adfywio pellach.

Yr ydym oll yn ymwybodol o'r moethusrwydd o fod yn wrthblaid ac mae'r cynnig hwn yn enghraifft o'r ymagredd negyddol, beirniadol ac anghofus y daethom i'w chysylltu â'r Blaid Geidwadol at ddull Llafur o ymdrin â ffermio. Rhaid inni ein hatgoffa ein hunain am record y Blaid Geidwadol ar yr economi wledig. Gorddefnyddir yr ymadrodd '18 mlynedd o lywodraeth Doriadd' ond rhaid inni egluro sut yr oedd y difrod a achoswyd gan flynyddoedd o gamreoli wedi dod â chefn gwlad i'w liniau yn y lle cyntaf. Y Blaid Geidwadol a gynigiodd y cynnig hwn ond fe'ch atgoffaf mai anwybodaeth lwyd y Blaid Geidwadol am y problemau cyntaf ynghylch BSE a'r dirywiad mewn asesu risg er mwyn enillion ariannol ac etholiadol tymor byr a gychwynnodd y problemau anferth sydd yn wynebu'r diwydiant heddiw. Pwy a ddadreoleiddiodd wasanaethau bysiau? Pam y mae'r ddogfen Amcan 2 yn cynnwys adrannau i ymdrin ag ynysu yng nghefn gwlad? Pa blaid a bregethodd wrthym am flynyddoedd lawer mai grymoedd y farchnad oedd yr unig ffordd ymlaen?

Yr oedd ffactorau eraill, nad oedd yn gyfrifol amdanyst, wedi gwaethyg rheolaeth y Blaid Geidwadol o'r economi wledig. Mae lefel isel prisiau nwyddau yn y byd yn broblem ddymwad sydd yn wynebu'r diwydiant ffermio, sydd yn effeithio ar y cyfan o'r gymuned wledig. Ffactor arall fu'r ymgyrch i ailstrwythuro'r polisi amaethyddol cyffredinol er mwyn symud oddi wrth y ddibyniaeth fawr ar gymorth gwladwriaethol a chymorthdaliadau o dan Agenda 2000. Yr ydym hefyd yn ymwybodol o'r problemau a achoswyd gan gryfder sterling ac ni fyddai'n iawn inni beidio â dweud bod hon yn broblem aruthrol i ardaloedd gwledig a phob ardal arall. Ni thalodd y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf unrhyw iawndal amaeth-arianyddol o gwbl. Holais Peter

Rogers ynghylch hynny ond nid atebodd fy nghwestiwn.

4:10 p.m.

Following the farming summit at the end of last month, the Prime Minister announced a massive package of aid worth at least £200 million for the farming industry to alleviate immediate pressures. Edwina has broken the figures down for Wales. I could not and would not attempt to do so, therefore I will use the British figures. I will not bore you with a blow by blow breakdown of these measures. Indeed, the package is so comprehensive that I would not have time to detail them all. I will expand a little on what Labour is doing for the rural areas of Wales. This is important and we are working very hard on their behalf.

First, agri-monetary compensation. Labour has pledged to deliver £66 million in agri-monetary aid; £22 million each to the dairy, sheep and beef sectors. You may ask why the Government has not pledged agri-monetary compensation for the arable sector. Arable farmers are already being paid £171 million of agri-money this year. Another measure announced in this package is the Government's pledge to abolish dairy hygiene inspection charges. Christine Gwyther has been pursuing this on our behalf for some time. This agreement with MAFF can only strengthen our case with Europe. It is estimated that this measure alone will be worth at least £1 million for the industry.

The Government will also remove the over 30 months weight limit, which should be worth approximately £11.5 million to the dairy sector. The sum of £26 million will be used to help restructure the pig industry and, importantly for Wales, the Government has announced the retention of £60 million in the UK budget to support less favoured areas in 2001. Labour has also announced a number of broader measures to further regenerate the rural economy.

**David Davies:** Who wrote this statement?

Ar ôl yr uwchgynhadledd ffermio ddiwedd y mis diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn anferth o gymorth sydd yn werth o leiaf £200 miliwn i'r diwydiant ffermio er mwyn lliniaru pwysau dybryd. Mae Edwina wedi dadansoddi'r ffigurau ar gyfer Cymru. Ni allwn ac ni fynnwn geisio gwneud hynny, felly defnyddiaf y ffigurau Prydeinig. Ni'ch diflasaf â dadansoddiad fesul un o'r mesurau hyn. Yn wir, mae'r pecyn mor gynhwysfawr fel na fyddai amser imi eu rhestru i gyd. Ymhelaethaf ychydig ar yr hyn y mae Llafur yn ei wneud dros ardaloedd gwledig Cymru. Mae hynny'n bwysig ac yr ydym yn gweithio'n galed iawn ar eu rhan.

Yn gyntaf, iawndal amaeth-arianyddol. Mae Llafur wedi addo cyflenwi £66 miliwn o gymorth amaeth-arianyddol; £22 miliwn yr un i'r sectorau llaeth, defaid a chig eidion. Gallech ofyn pam nad yw'r Llywodraeth wedi addo iawndal amaeth-arianyddol i'r sector tir âr. Mae ffermwyr tir âr eisoes yn derbyn £171 miliwn o arian amaethyddol eleni. Mesur arall a gyhoeddwyd yn y pecyn hwn yw addewid y Llywodraeth i ddileu taliadau arolygu glanweithdra llaeth. Mae Christine Gwyther yn ceisio cyflawni hyn ar ein rhan ers cryn amser. Ni all y cytundeb hwn â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ond cryfhau ein hachos gydag Ewrop. Amcangyfrifir y bydd y mesur hwn ar ei ben ei hun yn werth o leiaf £1 filiwn i'r diwydiant.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn dileu'r terfyn pwysau dros 30 mis, a ddylai fod yn werth tua £11.5 miliwn i'r sector llaeth. Defnyddir y swm o £26 miliwn i helpu i ailstrwythuro'r diwydiant moch ac, yn bwysig i Gymru, cyhoeddodd y Llywodraeth y cedwir £60 miliwn yng nghyllideb y DU i roi cymorth i ardaloedd llai ffafriol yn 2001. Mae Llafur hefyd wedi cyhoeddi nifer o fesurau ehangach i adfywio'r economi wledig ymhellach.

**David Davies:** Pwy a ysgrifennodd y datganiad hwn?

**Karen Sinclair:** I did, this morning, with facts rather than emotion and silly comments.

**The Presiding Officer:** Order. It hardly behoves Members who seek to raise points of order about the behaviour of other Members and to complain, to be behaving in a way that is not entirely in order. It is the Welsh Conservative group's debate after all.

**Karen Sinclair:** This is a reaction to the Conservatives' debate.

Labour has announced a number of broader measures to further regenerate the rural economy in the package announced by the UK Government and in the rural development plan that we are developing. I say 'we', because we are working very hard together in the Agriculture and Rural Development Committee on 'Farming for the Future'. I do not have enough time to go through all of what I have prepared because Christine's time will be curtailed.

I have made myself clear in my claim that this is a strange choice of debate for the Conservatives, given that they were the ones who failed the rural economy. I live in a rural community and I was there, David, during those years to see the decimation and its causes. The Labour Party has begun the difficult task of making rural communities viable once again. It will be a long, uphill struggle, but we are committed to that task.

**Christine Gwyther:** Thank you, Karen. I do not mind being curtailed when I am faced with fact instead of flannel, which has been the substance of a great deal of this debate.

I am sure that you are not surprised to hear that we reject the motion completely. To say that we are failing to protect the rural economy and its services is totally unfounded. I also reject Rhodri Glyn Thomas's amendment 1. I am sorry if that upsets you, Rhodri.

Our approach to economic prosperity for all parts of Wales has always been the creation of a flourishing enterprise and innovation

**Karen Sinclair:** Myfî, y bore yma, gan ddefnyddio ffeithiau yn hytrach nag emosiwn a sylwadau gwirion.

**Y Llywydd:** Trefn. Prin ei bod yn briodol i Aelodau sydd yn ceisio codi pwyntiau o drefn a chwyno am ymddygiad Aelodau eraill, ymddwyn mewn modd nad yw'n gwbl mewn trefn. Dadl grŵp Ceidwadol Cymru ydyw wedi'r cwbl.

**Karen Sinclair:** Mae hyn yn ymateb i ddadl y Ceidwadwyr.

Cyhoeddodd Llafur nifer o fesurau ehangach i adfywio'r economi wledig ymhellach yn y pecyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ac yn y cynllun datblygu gwledig yr ydym yn ei ddatblygu. Dywedaf 'ni', oherwydd yr ydym yn gweithio'n gaed iawn yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol'. Nid oes gennyf ddigon o amser i fynd drwy'r cwbl o'r hyn a baratoais oherwydd byddwn yn cwtogi ar amser Christine.

Yr wyf wedi fy egluro fy hun o ran fy haeriad bod hon yn ddadl ryfedd i'w dewis gan y Ceidwadwyr, o ystyried mai hwy oedd y rhai a esgeulusodd yr economi wledig. Yr wyf yn byw mewn cymuned wledig ac yr oeddwn yno, David, yn ystod y blynnyddoedd hynny i weld y distryw a'i achosion. Mae'r Blaid Lafur wedi dechrau ar y dasg anodd o wneud cymunedau gwledig yn hyfyw unwaith eto. Bydd yn ymdrech hir ac anodd, ond yr ydym wedi ymrwymo i'r dasg honno.

**Christine Gwyther:** Diolch i chi, Karen. Nid oes gwahaniaeth gennyf gael fy nghwtogi pan wynebir fi â ffeithiau yn hytrach na lol, sef yr hyn a fu'n sylwedd i lawer iawn o'r ddadl hon.

Yr wyf yn sicr na synnwch o glywed ein bod yn gwrthod y cynnig yn llwyr. Mae dweud ein bod yn methu â diogelu'r economi wledig a'i wasanaethau'n gwbl ddi-sail. Gwrthodaf hefyd welliant 1 Rhodri Glyn Thomas. Mae'n ddrwg gennyf os yw hynny'n eich siomi, Rhodri.

Y dull sydd gennym erioed o geisio ffyniant economaidd ar gyfer pob rhan o Gymru yw creu diwylliant menter ac arloesi llewyrchus,

culture, which values, recognises and rewards entrepreneurial spirit. Action, not rhetoric is needed for rural Wales, which is why we have been pushing ahead with the delivery of a range of policies and programmes.

**Richard Edwards** rose—

**The Presiding Officer:** Richard probably wants to say something helpful, Christine.

**Christine Gwyther:** I hope so, Richard, or I will be very cross.

**Richard Edwards:** I am sure that you would welcome something helpful. Will you join me in condemning the sheer effrontery of the proposers of this motion? The Tory legacy to rural Wales for two decades was BSE, bus deregulation, crippled public services, spiralling interest rates and unemployment. What about child poverty? In 1979, if the Conservatives had promised to treble child poverty in rural and urban Wales, it would have been the one promise that it managed to keep.

**Christine Gwyther:** Sheer effrontery is a phrase I could not have chosen better myself. Let us return to the issues. Tomorrow, we will debate the Objective 1 single programming document and the draft Rural Development Plan, which was considered in Plenary last year. Both of those documents contain measures aimed at the development of rural areas to improve basic services, enhance the contribution of tourism, craft and cultural activities and promote diversification to encourage alternative sources of income.

Returning to agriculture, this administration recognises the continuing reliance of many rural communities on agriculture for direct and indirect employment. I have always said that we understand that for every job created on a farm, 0.4 jobs are created off the farm. That is important to remember. We have provided substantial financial help to the industry.

I am grateful to Edwina for reporting

sydd yn trysori, yn cydnabod ac yn gwobrwoy mentergarwch. Gweithredu, nid rhethreg yw'r hyn y mae ei angen ar y Gymru wledig, a dyna pam y buom yn bwrw ymlaen i gyflawni amrediad o bolisiâu a rhaglenni.

**Richard Edwards** a gododd—

**Y Llywydd:** Mae Richard am ddweud rhywbeth a fydd o gymorth yn ôl pob tebyg, Christine.

**Christine Gwyther:** Gobeithiaf, Richard, neu byddaf yn flin iawn.

**Richard Edwards:** Yr wyf yn sicr y croesawech rywbeth a fydd o gymorth. A ymunwch â mi wrth gollfarnu haerllugrwydd llwyr cynigwyr y cynnig hwn? Yr etifeddiaeth Dorfaidd a gafodd y Gymru wledig am ddau ddegawd oedd BSE, dadreoleiddio bysiau, gwasanaethau cyhoeddus a andwywyd, cyfraddau llog cynyddol a diweithdra. Beth am dldi ymysg plant? Yn 1979, pe bai'r Ceidwadwyr wedi addo treblu tlodi ymysg plant yn y Gymru wledig a'r Gymru drefol, honno fyddai'r un addewid y byddent wedi llwyddo i'w chadw.

**Christine Gwyther:** Mae haerllugrwydd llwyr yn ymadrodd na allaswn ddewis ei well fy hun. Gadewch inni fynd yn ôl at y materion sydd o bwys. Yfory, byddwn yn trafod y ddogfen raglennu sengl Amcan 1 a'r Cynllun Datblygu Gwledig drafft, a ystyriwyd yn y Cyfarfod Llawn y llynedd. Mae'r ddwy ddogfen hynny'n cynnwys mesurau sydd yn ceisio datblygu ardaloedd gwledig er mwyn gwella gwasanaethau sylfaenol, hybu cyfraniad twristiaeth, crefftiaeth a gweithgareddau diwylliannol a hyrwyddo amrywiaethu er mwyn hybu ffynonellau incwm eraill.

Gan droi'n ôl at amaethyddiaeth, mae'r weinyddiaeth hon yn cydnabod dibyniaeth barhaus llawer o gymunedau gwledig ar amaethyddiaeth am gyflogaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol. Dywedais erioded ein bod yn deall bod pob un swydd a greir ar fferm yn creu 0.4 o swyddi oddi ar y fferm. Mae'n bwysig cofio hynny. Rhosom gymorth ariannol helaeth i'r diwydiant.

Yr wyf yn ddiolchgar i Edwina am roi

substantively the UK package, but the Welsh input into that was critical. Wales leads the way in this respect. Hard work went into it, not only on a political level, but on an official level.

**David Melding:** Is your administration committed to the family farm being the centre of Welsh agriculture?

**Christine Gwyther:** Absolutely. I should not have to answer that question. I am sure that it comes through in our policies and programmes. We also lead the way on agri-environmental measures—the Tir Gofal scheme is respected and known throughout Europe. By the end of three years, about 2,000 farms in Wales, including family farms—we are making greater strides to ensure that that happens, David—will be part of the scheme. This will create social, environmental and economic gains for our people. Our organic scheme is flourishing and I am glad that we have been able to put more money into it.

**Kirsty Williams:** I welcome Edwina's announcement of agri-monetary compensation for Welsh farmers today. However, in her statement she said that the full amount had been made available to dairy farmers, not beef and sheep farmers. I have beef and sheep areas in my constituency. Do you regret the London Government's decision not to make the full amount of agri-monetary compensation available for the beef and sheep sector?

4:20 p.m.

